

Adolygiad Tymor Canol CGHT (2019 – 2023) ROWIP Mid Term Review (2019 – 2023)



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio canfyddiadau'r adolygiad o'r Cynllun Cyflawni a gynhaliwyd hanner ffordd drwy gyfnod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) yn 2022/2023, fel rhan o'r gwaith parhaus i fonitro cyflawniad a chynnydd. Dylid ei darllen ar y cyd â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029.

Mae Cynllun Cyflawni'r CGHT yn cynnwys y Nodau, y Polisiâu a'r Cynllun Gweithredu. Mae Cynllun Cyflawni CGHT 2019-2029 yn manylu ar gyfanswm o 47 o Gamau Gweithredu (gan gynnwys eu his-gamau). I ddiben yr adolygiad canol tymor hwn, mae'r Camau wedi cael eu rhannu'n dri chategori sy'n adlewyrchu'r llwyddiannau a'r diffygion wrth eu gweithredu hyd yma.

Lle nodir problemau yn ystod yr adolygiad, gwneir argymhellion ynghylch sut i gefnogi gweithredu'r Camau i'w hystyried gan CSC, gyda ffocws arbennig ar y Camau uchel eu blaenoriaeth.

CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (CGHT)

O dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000 mae'n ofynnol i bob awdurdod priffyrdd lleol gyhoeddi a chynnal adolygiadau bob deng mlynedd o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) ar gyfer eu hardal.

Cyhoeddwyd y CGHT cyntaf ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2007 i gwmpasu'r cyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2017. Cyhoeddwyd ail CGHT diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2019 (1), yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2029, yn dilyn ymchwil ac ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn ystyried llwyddiannau a diffygion y cynllun cyntaf.

Mae'r CGHT yn cynnwys Cynllun Cyflawni, ac ynddo'r Nodau, y Polisiâu a'r Cynllun Gweithredu. Ceir hyd i hwnnw yn Adran 11 o CGHT 2019-2029 Sir Gaerfyrddin.

Mae'r themâu a'r nodau canlynol yn sail i Gynllun Cyflawni'r CGHT:

Nod 1: Sicrhau bod y Rhwydwaith Hawliau Tramwy yn hawdd ei ddefnyddio ac yn cynnig mwynhad.


Nod 2: Darparu map a datganiad diffiniol dibynadwy, cywir a chyfredol, sydd ar gael yn eang.

Nod 3: Sicrhau bod y cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnig mwynhad.

Nod 4: Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl bartïon perthnasol sydd â diddordeb er mwyn cael gwell cyfleusterau i gefn gwlad.

Nod 5: Hyrwyddo – cynnal a gwella ystod ac ansawdd gwybodaeth gyhoeddus ar fynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'i gwneud ar gael yn fwy eang mewn fformatau priodol.

ADOLYGIAD O GYNLLUNIAU CYFLAWNI



Ffigur 1-1 Atgynhyrchiad o Ganllawiau CGHT LIC

Fel y disgrifiwyd yng Nghanolllawiau Llywodraeth Cymru (LIC) i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (2) a gyhoeddwyd yn 2016, gellir adnewyddu'r Cynlluniau Cyflawni fesul cyfnod heb orfod adolygu'r CGHT yn ei gyfanrwydd.

Uchelgais gwreiddiol CSC oedd adolygu'r Cynllun Cyflawni bob dwy flynedd. Fodd bynnag, gohiriwyd yr adolygiad hwn oherwydd yr heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19 ochr yn ochr â phrinder staff yn y gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad.

Wedi hynny, yn 2022, comisiynwyd WSP Consultants gan CSC i gynnal adolygiad canol tymor o Gynllun Cyflawni CGHT Sir Gaerfyrddin.

Aeth WSP rhagddynt i ddatblygu fethodoleg adolygu, cwblhau adolygiad Polisi sylfaenol, casglu a dadansoddi holl ddata'r adolygiad a llunio'u hadolygiad. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan WSP, aeth CSC ati wedyn i gwblhau'r dogfen derfynol yr adolygiad.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio canfyddiadau'r adolygiad o'r Cynllun Cyflawni a gynhaliwyd yng nghanol y tymor ar gyfer y CGHT (yn 2022/2023), fel rhan o'r gwaith parhaus i fonitro cyflawniad a chynnydd. Dylid ei darllen ochr yn ochr â CGHT Sir Gaerfyrddin 2019-2029.

ADOLYGIAD POLISI SYLFAENOL

Cynhaliwyd adolygiad polisi sylfaenol i ddeall sut y gallai newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Hawliau Tramwy ers cyhoeddi'r CGHT effeithio ar y Nodau, y Polisiâu a'r Cynllun Gweithredu (sy'n ffurfio'r Cynllun Cyflawni) a gyflwynir yn fanwl yn Adran 11 o CGHT 2019-2029.

Y dyddiad sylfaenol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad oedd 1 Ionawr 2019.

Yn yr adolygiad polisi ystyriwyd polisi cenedlaethol sy'n trafod Cymru, fel Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (3), yn ogystal â pholisi rhanbarthol a pholisi sy'n lleol i Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adolygiad polisi sylfaenol hefyd yn ystyried effaith bosibl polisi sydd ar ddod, gan gynnwys rhai sy'n cael eu harchwilio gan y Grŵp Cyngori Diwygio Mynediad.

Ar y cyfan, mae'r Nodau, y Polisiâu a'r Cynlluniau Gweithredu a geir yn CGHT 2019-2029 yn dal i fod yn berthnasol. Gan hynny, nid oes angen unrhyw newid i'r themâu cyffredinol ym mholisiâu na nodau'r CGHT, nac i'w Gynllun Gweithredu.

Nodwyd yn yr adolygiad nifer fach o Bolisiâu a Chamau Gweithredu lle gallai fod yn briodol diwygio'r flaenoriaeth a/neu aralleirio i'w gwneud yn fwy perthnasol i'r amgylchiadau presennol (e.e. lle symudwyd rolau rhwng y naill sefydliad a'r llall).

Mae'r enghreifftiau lle gallai hyn fod yn briodol wedi'u hamlygu yn yr adran ganlynol, sy'n rhoi crynodeb o'r cynnydd canol tymor o ran rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith.

Ceir hyd i ganfyddiadau'r adolygiad polisi sylfaenol a chopi o'r Nodyn Technegol Adolygiad Polisi Sylfaenol CGHT yn Atodiad A.

METHODOLEG

Cynhaliwyd adolygiad canol tymor Cynllun Cyflawni'r CGHT ar y cyd â WSP a thîm Mynediad i Gefn Gwlad CSC, gyda mewnbwn gan Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) Sir Gaerfyrddin.

Yn rhan o'r adolygiad, casglodd WSP wybodaeth sy'n berthnasol i weithrediad Cynllun Cyflawni'r CGHT yn y cyfnod o 2019 hyd 2022, a diweddarodd CSC yr wybodaeth i gynnwys 2023 gan ymestyn yr adolygiad i gwmpasu 5 mlynedd; hanner ffordd drwy gyfnod y cynllun.

Roedd yr wybodaeth hon yn cynnwys:

- Allbynnau o'r System Mapio Mynediad i Gefn Gwlad - sef system fapio GIS bwrdd gwaith.
- Cyfanswm y Gwariant ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad, gan gynnwys y gwariant refeniw (ac eithrio costau staff), gwariant cyfalaf gan gynnwys y Grant Gwella Mynediad o fis Ebrill 2020, a'r Gwariant ar Lwybr Arfordir Cymru a oedd yn cynnwys y grant refeniw perthnasol.
- Cofnodion cau a gwyro Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Gweithgareddau hyrwyddo ac arolygon cyhoeddus
- Cwynion a cheisiadau rhyddid gwybodaeth
- Recriwtio gwirfoddolwyr a chyflawniadau'r gweithlu gwirfoddol

Yn ogystal, cynhaliwyd dau weithdy ar wahân gyda CSC a FfMLI Sir Gaerfyrddin, o dan arweiniad WSP. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaeth ynghylch y ffyrdd gorau o fesur llwyddiant ac yn gyfle i CSC a'r FfMLI roi adborth ynghylch gweithredu'r CGHT cyfredol hyd 2022.

Gweithdy Adolygu CGHT CSC:

Cynhaliwyd gweithdy gyda CSC o dan arweiniad WSP ar 28 Medi 2022. Roedd Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC, cynrychiolydd o'r tîm cynnal Mynediad i Gefn Gwlad a'r Ymgynghorydd o WSP oedd yn arwain yr adolygiad canol tymor yn bresennol.

Gweithdy Adolygu CGHT FfMLI Sir Gaerfyrddin:

Roedd y gweithdy gyda FfMLI Sir Gaerfyrddin, a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022 yn cynnwys aelodau o FfMLI Sir Gaerfyrddin, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC yn rhan o'i gylch gwaith fel ysgrifennydd, yn ogystal â'r Ymgynghorydd o WSP a gadeiriodd y cyfarfod.

Mae gan y Fforwm Mynediad Lleol ystod eang o aelodaeth, gyda chynrychiolaeth gan aelodau â buddiannau mewn meysydd fel twristiaeth, cerdded, mynediad ar foduron, mynediad i geffylau, beicio, ffermio, rheoli cefn gwlad a'r amgylchedd. Yn ogystal â hyn, ceir cynrychiolaeth gan ddefnyddwyr llai abl.

Y SYSTEM CAG (Coch/Ambr/Gwyrdd)

Mae'r cynnydd o ran gweithredu Cynllun Cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i gyflwyno mewn ffordd sy'n tynnu sylw at lwyddiannau a diffygion o dan bob un o'r 5 prif nod, gan ddefnyddio'r system Coch / Ambr / Gwyrdd (CAG).

Nod y system hon yw tynnu sylw at y Camau Gweithredu yn y Cynllun Cyflawni lle mae angen gwaith a/neu adnoddau ychwanegol i gyd-fynd â dyheadau a blaenoriaethau presennol yr Awdurdod.

Mae system CAG yn rhannu llwyddiant o ran gweithredu i un o'r tri chategori canlynol:



COCH: Camau Gweithredu uchel eu blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni na chafwyd digon o gynnydd i'w gweithredu.



AMBR: Camau Gweithredu eraill yn y Cynllun Cyflawni a gafodd eu rhoi ar waith gyda lefelau amrywiol o lwyddiant.



GWYRDD: Camau Gweithredu'r Cynllun Cyflawni lle bu cynnydd da, a lle bo'r camau wedi'u rhoi ar waith yn foddhaol.

GWEITHREDU CYNLLUN CYFLAWNI'R CGHT

Drwy'r ddefnyddio system gategoreiddio CAG, mae'r wybodaeth isod yn manylu ar bob cam gweithredu, ei statws o ran blaenoriaeth, a'r llwyddiant o ran ei weithredu.

Ceir rhagor o fanylion hefyd ynghylch y cynnydd a wnaed gan dîm Mynediad i Gefn Gwlad Sir Gaerfyrddin, a'i bartneriaid, o ran cyflawni'r CGHT rhwng 2019 a 2022, gan restru unrhyw dasgau allweddol i gyflawni'r CGHT yn well ac unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun cyflawni.

NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD.

A. GWELLA HAWLIAU TRAMWY

O'r 7 cam gweithredu a gyhoeddwyd o dan Nod 1A, mae 2 wedi cael eu cyflawni'n foddhaol, gwelwyd llwyddiant amrywiol gyda 2 ohonynt, a chynnydd annigonol yn achos 2 arall.

C	C	A	A	A	G	G
CAM 2: Ceisio cynnal dyraniad cyllideb Mynediad i Gefn Gwlad 2017 ynghyd â chwyddiant dros gyfnod 10 mlynedd y Strategaeth hon.	CAM 5: DIM STATWS BLAENORIAETH Dylai Hawliau Tramwy y gellid eu defnyddio i gael mynediad hamdden i ddyfrffyrdd ar gyfer canwod a chychod tebyg gael eu cynnal a'u cadw i alluogi hynny.	CAM 1B: ISEL Cynyddu canran yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar agor, yn hawdd eu defnyddio ac wedi'u harwyddo'n dda trwy ailagor a gwella isafswm o 200km y.f.	CAM 3: UCHEL Sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei gynnal i'r safon uchaf posib ar y cyd â Phowys a Cheredigion gan ddefnyddio'r Swyddog Llwybr Arfordir a gyd-benodwyd i'r rôl, a defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i'r diben hwnnw. Ceisio gwella rhannau priodol i ddarparu mynediad i bawb.	CAM 4B: CANOLIG Archwilio cyfleoedd i ddatblygu Llwybrau Marchogol rhanbarthol a llwybrau marchogol ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin wrth i fwy o arian gael ei ddarparu.	CAM 1A: UCHEL Cynyddu canran yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar agor, yn hawdd eu defnyddio ac wedi'u harwyddo'n dda trwy ailagor a gwella isafswm o 100km y.f. (4.6% o'r rhwydwaith)	CAM 4A: UCHEL Llwybrau ceffylau, Cilffyrdd a Ffyrdd Gwyrdd (ffyrdd diddosbarth) – gweithio gyda'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, y BHS a grwpiau defnyddwyr eraill i wella priffyrdd dethol, cilffyrdd, llwybrau ceffylau a thir mynediad addas arall ar gyfer defnyddwyr ar geffylau.

O dan Nod 1A, mae Sir Gaerfyrddin wedi perfformio'n foddhaol o ran camau gweithredu 2 a 5.

Cam 2

Sicrhawyd llwyddiant wrth gyflawni cam gweithredu 2 drwy nodi pwysau cyllidebol o fewn y gwasanaeth yn gynnar yn 2018, a gwnaed cais llwyddiannus am gyllid ychwanegol. Dyfarnwyd referiw ychwanegol i'r gyllideb Mynediad i Gefn Gwlad yn 2019 a dyrannwyd mwy o arian eto i'r gyllideb yn 2020. Fflwyddyn ar ôl blwyddyn, mae hyn wedi bod yn fodd i gynnal dyraniad 2017 hyd heddiw.

Mae'r cyfrifiad hwn wedi cael ei wirio gan yr adran gyllid yn dilyn gweithdy'r FfMLI, lle awgrymwyd y dylid cynnwys yr holl gyllideb weithiol yn hytrach na'r gyllideb cynnal a chadw yn unig, ac y dylid rhoi cyfrif am chwyddiant.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Dim

Cam 5

Ceir ymrwymiad i ymgorffori egwyddorion cam 5 yn rhan o Gynlluniau Grant Gwella Mynediad Sir Gaerfyrddin ¹, gan wella mynediad at ddŵr lle cytunir ar hawliau. Fodd bynnag, ac ystyried y diffyg eglurder ynghylch hawliau tramwyo cychod, byddai canllawiau diwygiedig sy'n dilyn argymhellion ARAG FAR ar hawliau mynediad i ddŵr yn galluogi mwy o sicrwydd wrth gynllunio prosiectau, a thrafodaethau a allai gyflawni'r cam gweithredu hwn yn well.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Dylid dyfarnu statws blaenoriaeth Canolig i'r cam, yn amodol ar adolygiad yn unol ag unrhyw ganllawiau newydd.
	Dylid diwygio geiriad cam 5 drwy gynnwys rhai targedau mesuradwy pan gyhoeddir canllawiau diwygiedig.

O dan Nod 1A, gwelwyd llwyddiant amrywiol mewn perfformiad wrth gyflawni camau 1B, 3 a 4B.

Cam 1B

Bu llwyddiant rhannol wrth gyflawni cam gweithredu 1B, gan ailagor a/neu wella 89km o hawl tramwy cyhoeddus yn y 3 blynedd o 2019 hyd 2022. Er bod gwelliant o 3.6% i'r rhwydwaith HTC yn gam cadarnhaol, mae'n sylweddol is na'r targed a gyhoeddwyd, a oedd yn darged hynod uchelgeisiol yn seiliedig ar gynnydd i'r cyllid a fyddai ar gael.

Er llwyddo i gynnal dyraniad cyllideb 2017 a derbyn cyllid Grant Gwella Mynediad (AIG), ceir diffyg o hyd yn y cyllid ar gyfer cyrraedd targed mor uchelgeisiol.

Bydd yr arolwg arfaethedig o 100% o'r rhwydwaith yn creu cofnod llawn o gyflwr HTCaau yn y Sir, yn creu llinell sylfaen gywir y gallwn ei defnyddio i fesur perfformiad yn fwy manwl gywir. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar hyn o bryd i gyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer cam 1B.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Dylid dileu Cam Gweithredu 1B gan adael un cam gweithredu uchelgeisiol dro gyfnod y CGHT sy'n ceisio sicrhau targed realistig i gynyddu'r HTCau sy'n hawdd eu defnyddio ac arnynt arwyddion da. Nid oedd rhyw lawer o werth mewn cyhoeddi cam 'B', a fyddai mor ddibynnol ar sicrhau cynnydd sylweddol mewn cyllid, sy'n afrealistig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Cam 3

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau, gyda rhaglen amnewid camfeydd ar y gweill ar Lwybr Arfordir Cymru er mwyn gwella hygrychedd i gerddwyr. Mae topograffi'r tir y mae Llwybr Arfordir Cymru yn ei groesi yn achosi anawsterau logisteg wrth geisio gwneud gwelliannau. Mae adolygiad parhaus o Lwybr Arfordir Cymru o fewn Sir Gaerfyrddin yn ceisio sicrhau gwelliannau wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn parhau hyd ddiwedd cyfnod y CGHT.

Nid yw cyfleoedd am hawliau uwch ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer beicio a marchogaeth yn cael eu ceisio'n weithredol.

Amlygwyd y geiriau 'sicrhau' a 'safon uchaf bosib' yng ngweithdy'r FfMLI fel geiriau afrealistig ac aneglur. Mynegodd aelodau'r FfMLI hefyd bryder ynghylch y ddarpariaeth mynediad i farchogion hyd yma, a gofynnwyd am gael mwy o gyfathrebu â Swyddog Llwybr Arfordir Cymru.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Cynyddu ymgysylltiad rhwng swyddog Llwybr Arfordir Cymru a'r FfMLI.	Aralleirio Cam 3 i "Cynnal Llwybr Arfordir Cymru hyd at y safon ymarferol uchaf, ar y cyd â Phowys a Cheredigion, gan ddefnyddio Swyddog y Llwybr Arfordir a benodwyd ar y cyd ar gyfer y rôl a defnyddio cyllid LIC i'r diben hwnnw. Ceisio gwella adrannau priodol er mwyn cynnig mynediad i bawb." (neu eiriad tebyg).



Cam 4B

Mae llwybr amlddefnyddwyr yn cael ei ddatblygu yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin. Heb gyllid penodol ar gyfer datblygiadau o'r fath, dyhead hir dymor yw'r datblygiad hwn, ynghyd â chyfleoedd eraill posibl, a fydd yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT cyfredol.

Mae angen y Strategaeth Marchogaeth arfaethedig er mwyn symud y cam hwn ymlaen mewn modd strwythuredig a chefnogol.

Awgrymodd y FfMLI y dylai'r cam gweithredu gyfeirio at Lwybrau Marchogaeth Rhanbarthol 'newydd' neu 'bresennol'. Gan nad oes unrhyw lwybrau marchogaeth rhanbarthol diffiniedig ar hyn o bryd, gellid aralleirio Cam 3 i 'datblygu' llwybrau marchogaeth rhanbarthol 'newydd'.....ond ystyrir nad yw hwn yn newid allweddol sydd ei angen yn nhymor y CGHT hwn, felly bydd yn rhywbeth i'w ystyried pan ddaw tymor y cynllun i ben.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Adolygu a diwygio geiriad a tharged(au) Cam 4B fel bo'r angen wrth gyhoeddi'r Strategaeth Marchogaeth.	Newid y dyddiad targed i ddiwygio'r cam gweithredu i 2029.

O dan Nod 1A, nid yw Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cynnydd digonol o ran camau gweithredu 1A a 4A.

Cam 1A (Blaenoriaeth uchel)

Nid yw'r cam hwn wedi'i gyflawni'n llawn. Mae colli cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer CGHT wedi parhau i gael effaith ar y gallu i gyflawni rhai o amcanion y CGHT.

Llwyddwyd i sicrhau gwelliant i 3.6% o'r rhwydwaith. Er bod gwella 89km o'r rhwydwaith HTC yn gam cadarnhaol, mae'n sylweddol is na'r targed a gyhoeddwyd, a oedd yn darged uchelgeisiol yn seiliedig ar sicrhau cyllid ychwanegol.



Er y llwyddwyd i gynnal dyraniad cyllideb 2017 ac er y derbyniwyd cyllid Grant Gwella Mynediad (AIG) ceir diffyg o hyd mewn cyllid i gyflawni'r targed hwn, o ystyried yr holl ddyletswyddau, rolau a chyfrifoldebau eraill.

Bydd yr arolwg arfaethedig o 100% o'r rhwydwaith yn creu cofnod llawn o gyflwr HTCau yn y Sir, yn creu llinell sylfaen fanwl gywir y gallwn ei defnyddio i fesur perfformiad yn gywirach. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar hyn o bryd i gyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer cam 1A.

Tynnodd aelodau'r FfMLI sylw at bwysigrwydd CAMS wrth fonitro cynnydd/llwyddiant y cam hwn.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Chwilio am ffrydiau ariannu ychwanegol i gyflawni'r cam hwn sy'n uchel ei flaenoriaeth.	Cyfuno camau 1A ac 1B i ddarparu un cam uchelgeisiol ond realistig. Aralleirio'r Cam i "Cynyddu cyfran yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar agor, yn hawdd eu defnyddio ac arnynt arwyddion da drwy ailagor a gwella isafswm o 200km dros dymor y CGHT." (neu eiriad tebyg).
	Diwygio'r dyddiad targed i 2029.

Cam 4A (Blaenoriaeth Uchel)

Gyda £16,000 o gyllideb cilffyrdd wedi'i neilltuo i gyflawni cam 4A, ceir diffyg sylweddol i'r amcangyfrif o'r cyllid sydd ei angen.

Er gwaethaf cynnydd o 4% yn nifer y Cilffyrdd sydd wedi'u mapio, ystyrir nad yw'r cyrff amrywiol wedi cydweithio'n ddigonol dros dymor y CGHT hyd yma. Mae blaenoriaethau gwahanol o fewn y gwasanaethau perthnasol wedi cyfrannu at y gwendid hwn.



Mae sylwadau'r FfMLI yn amlygu diffyg gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau a allai fod wedi cael eu gwella, a diffyg tryloywder y dull cyfredol o ddewis llwybrau i'w gwella. Yn ogystal â hyn, mynegwyd pryderon gan aelodau'r FfMLI nad oedd y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd yn cyfarfod mwyach.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Ailsefydlu'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd neu fforwm arall i fynd i'r afael â phryderon y FfMLI.	Dim
Datblygu proses dryloyw ar gyfer dewis llwybrau i'w gwella, gan gynnwys yr holl bartneriaid/gyrff.	

NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD.

B. CYNNAL A CHADW HAWLIAU TRAMWY

O'r 7 cam gweithredu a gyhoeddwyd o dan Nod 1B, cafodd 4 eu cyflawni'n foddhaol, a gwelwyd lefelau amrywiol o lwyddiant yn achos 3 ohonynt.

G	G	G	G	A	A	A
CAM 6: UCHEL Gwellu perfformiad ar arwyddbyst er mwyn cynyddu'r defnydd o Hawliau Tramwy sy'n "Hawdd eu Defnyddio".	CAM 7: UCHEL Bydd y Cynnal a Chadw Cymunedol Blyneddol yn cael ei flaenoriaethu gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad. Bydd yr uned Mynediad i Gefn Gwlad yn cysylltu â Chynghorau Tref/Cymuned yn gofyn iddynt ddefnyddio eu grymoedd cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal eu cyngor.	CAM 9: UCHEL Gofalu fod yr holl Llwybrau Strategol a Llwybrau'r Sir sy'n cael eu hyrwyddo ar agor ac ar gael ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda, gydag arwyddion a chyfeirbwyntiau. Trefnu fod pob llwybr a thaith yn cael adolygiad blyneddol, gan roi ystyriaeth i ansawdd, addasrwydd, poblogrwydd a'r adnoddau sydd ar gael.	CAM 11: UCHEL Parhau i weithio tuag at darged o 100% rhwydwaith llwybrau ceffylau ar agor a hawdd eu defnyddio yn y Sir.	CAM 8: UCHEL Chwilio am fwy o gyllid cynnal a chadw er mwyn creu rhwydwaith mynediad hirdymor, cynaliadwy ac o ansawdd uchel, ar y cyd ag awdurdodau eraill cyfagos yng Nghymru.	CAM 10: CANOLIG Ar y cyd â Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd Sir Gaerfyrddin a Grwpiau Defnyddwyr perthnasol eraill, gweithio i sicrhau bod yr holl Gilffyrdd/Ffyrdd Diddosbarth/Priffyrdd lle y cafodd hawliau cerbydol eu cyfyngu'n barhaol yn parhau i gael eu cynnal a chadw a'u cadw ar agor ac ar gael i ddefnyddwyr cyfreithlon eraill o fewn yr adnoddau sydd ar gael.	CAM 12: CANOLIG Clirio a gwellu cilffyrdd/"ffyrdd gwyrdd" addas, dethol wedi ymgynghori â Grwpiau Defnyddwyr ar yr amod fod cyllid yn parhau i fod ar gael.

Cam 6

Gwnaed cynnydd da yn gysylltiedig â cham 6 drwy'r roi'r flaenoriaeth i brosiectau gosod arwyddbyst yn 2019 a 2020. Yn dilyn lefelau isel o fuddsoddiad er mwyn gosod arwyddbyst cyn 2019, mae'r rhaglen gosod arwyddbyst sydd ar y gweill wedi creu gwelliant amlwg o ran perfformiad.

Mae cyfran o ddyfarniad y Grant Gwella Mynediad (AIG) wedi cael ei dyrannu i barhau â'r rhaglen gosod arwyddbyst hyd 2025, sy'n golygu y bydd y duedd i berfformiad wella yn parhau.

Rhagwelir y bydd y rhaglen gosod arwyddbyst flynyddol sydd wedi'i sefydlu yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT. Nododd aelodau'r FfMLI y byddai'n braf gweld mwy o gyfeirbwyntiau ar lwybrau yn ogystal ag arwyddbyst.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Diffinio'r llinell sylfaen o ran llwybrau sy'n 'hawdd eu defnyddio', a chynnwys y FfMLI yn rhan o'r drafodaeth.	Diweddaru'r gost amcangyfrifedig y flwyddyn i £7k er mwyn adlewyrchu'r gwir gostau a ragwelir.
Pan fydd cyfleoedd yn codi, fel rhan o raglen arwyddbyst neu fel rhan o brosiectau ehangach, gweithio gyda thirfeddianwyr i wella cyfeirbwyntiau ar hyd llwybrau.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

Cam 7

Mae'r broses o gyflawni cam 7 yn parhau, a bydd yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT.

Mae deialog agored yn cael ei chynnal â'r holl Gynghorau Tref a Chymuned i'w hannog i ddefnyddio'u pwerau statudol i gynnal HTCau.



Ers creu Hierarchaeth y Rhwydwaith, gofynnwyd i Gyngorau Tref a Chymuned ddarparu detholiad o 5% o lwybrau yn eu hardal yr hoffent iddynt gael blaenoriaeth.

Yn sgil cyflwyno Hierarchaeth y Rhwydwaith, mae angen diweddarau geiriad y cam gweithredu.

Awgrymodd aelodau'r FfMLI y dylid creu tafflen wybodaeth i Gyngorau Tref a Chymuned er mwyn iddynt gael dealltwriaeth well o'u pwerau a'r newid i ymagwedd yr Awdurdod tuag at gynnal a chadw a gorfodaeth HTCa.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Adolygu cynnwys llythyrau a gwybodaeth a ddarperir i Gyngorau Cymuned. Cynhyrchu dogfen wybodaeth i sicrhau bod digon o gyngor ar gael am eu pwerau/cyllid/dulliau o weithio.	Aralleirio'r cam i "Y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad i roi'r flaenoriaeth i gynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus drwy ddefnyddio Hierarchaeth y Rhwydwaith, mewn ymgynghoriad â'r Gyngorau Tref/Cymuned. Bydd yr uned Mynediad i Gefn Gwlad yn cysylltu â Chyngorau Tref/Cymuned i'w hannog i arfer eu pwerau i gynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn ardal eu Cyngor."
Pan fydd cyfleoedd yn codi, fel rhan o raglen arwyddbyst neu fel rhan o brosiectau ehangach, gweithio gyda thirfeddianwyr i wella cyfeirbwyntiau ar hyd llwybrau.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

Cam 9

Mae datblygiad hierarchaeth y rhwydwaith HTCau wedi cefnogi llwyddiant cam 9 sy'n parhau.

Yn ôl yr hierarchaeth mae'n rhaid cynnal a chadw ac archwilio llwybrau uchel eu blaenoriaeth yn rheolaidd, fel y rhai ar hyd ein Teithiau Cerdded Sirol a Llwybrau Cenedlaethol.

Ar ôl cwblhau'r arolwg 100% o'r rhwydwaith, gellid defnyddio data ansoddol mwy goddrychol (disgrifiadol) o arolygon a data cwynion i ategu data meintiol (mesuradwy) o CAMS er mwyn adolygu'r rhwydwaith a phenderfynu a yw llwybrau'n addas i'w hyrwyddo.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

Cam 11

Fel cam parhaus, mae cam 11 yn cael ei weithredu'n foddhaol ac yn mynd rhagddo.

Mae hierarchaeth y rhwydwaith HTCau yn rhoi'r flaenoriaeth i lwybrau amldefnyddwyr, gan gynnwys llwybrau ceffylau, gan helpu i weithredu'r cam hwn. Mae'r gost amcangyfrifedig a gyhoeddwyd o £10k y flwyddyn yn anghywir. Hyd yma cafwyd tua £40k o wariant blynyddol.

Nododd y FfMLI nad yw'r targed o 100% yn y cam gweithredu hwn yn realistig o ystyried problemau cyfreithiol sy'n effeithio ar rai llwybrau.

Bydd y Strategaeth Marchogaeth yn cyflwyno camau a thargedau newydd, a bydd angen adolygu cam 11 i sicrhau bod camau'r CGHT a'r Strategaeth Marchogaeth yn gyson y naill a'r llall.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Ystyried ac adolygu camau gweithredu'r CGHT yn ôl yr angen wrth weithredu'r Strategaeth Marchogaeth.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Diweddaru'r costau amcangyfrifedig bob blwyddyn i £40k

Cam 8

Ystyriwch hwn yn amcan parhaus, ond ni ellir defnyddio cyllid grant i gynnal a chadw'r rhwydwaith HTCau; un o'r cwestiynau allweddol sy'n codi felly yw - o le mae ceisio cyllid?

Manteisio ar gyfleoedd i ymrwymo adnoddau cymwys ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw wrth iddynt godi.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

Cam 10

Gyda'r cyfraniad o £16k gan yr is-adran Prifffyrdd i'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad, mae cam 10 wedi cael ei weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn ystod pob blwyddyn o dymor y CGHT hyd yma. Bydd y cam hwn yn parhau drwy gydol gweddill tymor y CGHT.

Mae nifer o gamau'r CGHT wedi cael adnoddau o'r gyllideb hon. Ni ellir cyflawni'r cyfan gyda'r swm hwn. Amcangyfrifir bod angen £50k y flwyddyn er mwyn cyflawni'r cam hwn yn llawn.



Mae'n hanfodol cael gwybodaeth am lwybrau cerbydau â chyfyngiadau cyfreithiol neu sy'n cael eu hystyried ar gyfer cyfyngiadau yn y dyfodol er mwyn gweithredu'r cam hwn yn llwyddiannus. Drwy sicrhau bod gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad gofnod cyfredol o lwybrau cyfyngedig ac ymgynghori â'r tîm ynghylch cynigion cyfyngu bydd modd cyflawni'r cam hwn hyd y bo'r adnoddau'r caniatáu ar hyn o bryd.

Mynegodd y FfMLI gryn bryder ynghylch Cilffyrdd a Ffyrdd Di-ddosbarth nad ydynt yn cael eu cynnal â'u cadw'n ddigonol ar gyfer defnyddwyr is eu statws. Mae aelodau'r FfMLI o'r farn fod llwyddiant y cam gweithredu hwn yn ddibynnol ar ailsefydlu'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd.

Mae aelodau'r FfMLI hefyd o'r farn y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i Gilffyrdd a Phrifyrdd Di-ddosbarth yn hierarchaeth y rhwydwaith. Mae cilffyrdd eisoes yn llwybrau uchel eu blaenoriaeth o fewn hierarchaeth y rhwydwaith HTCau. Nid yw Priffyrdd Di-ddosbarth wedi'u cynnwys yn yr hierarchaeth HTCau gan nad ydynt yn HTCau.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Cyswllt rhagweithiol o fewn y tîm Priffyrdd a Chynllunio ynghylch cyfyngiadau traffig arfaethedig ar gilffyrdd a Phrifyrdd Di-ddosbarth.	Diwygio'r gost amcangyfrifedig y flwyddyn i £50k
Cael a chynnal rhestr gyfredol o Gilffyrdd cyfyngedig a Phrifyrdd Di-ddosbarth Cyfyngedig	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Ailsefydlu'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	
Bydd y FfMLI yn dal i godi cynnal a chadw fel mater o flaenoriaeth o fewn CSC ar lefel y Cabinet.	

Cam 12

Mae'r dyraniad cyllid o £16k gan Briffyrdd CSC wedi'i dderbyn yn flynyddol drwy holl dymor y CGHT hyd yma, a rhagwelir y bydd yn parhau hyd o leiaf 2029. Bydd y cam gweithredu felly'n cael ei weithredu hyd ddiwedd tymor y CGHT.

Mae nifer o gamau wedi'u hariannu o'r gyllideb hon. Ceir gorgyffwrdd rhwng y cam hwn a chamau 4 a 10. Byddai diwygio cost amcangyfrifedig camau sy'n gorgyffwrdd yn lleihau pwysau ar yr £16k sydd ei angen i weithredu cam 12.

Dylid ystyried rhesymoli camau sy'n gorgyffwrdd a chynnal adolygiad o gostau cysylltiedig mewn unrhyw CGHT yn y dyfodol.

Gan nad oes cyfarfodydd o'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, bu'r ymgynghori â grwpiau defnyddwyr yn anghyson. Byddai ailsefydlu'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, er mwyn cynorthwyo i ddewis llwybrau i'w cynnal a'u cadw a'u gwella mewn modd tryloyw, o gymorth i weithredu'r camau'n llwyddiannus.

Ac ystyried blaenoriaeth uchel Cilffyrdd o fewn hierarchaeth y rhwydwaith, dylid diwygio'r cam hwn i fod yn flaenoriaeth Uchel.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Ailsefydlu'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Diwygio i fod yn cam blaenoriaeth Uchel.

NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD.

C. GORFODAETH HAWLIAU TRAMWY

O'r 2 gam gweithredu a gyhoeddwyd o dan Nod 1C, gwelwyd lefelau amrywiol o lwyddiant gyda'r naill, a chynnydd annigonol gyda'r llall.

A	C
CAM 14: CANOLIG Defnyddio matrices sgorio a gymeradwywyd i ddiffinio blaenoriaethau gorfodaeth megis ystyriaethau lechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu trin yn deg ac yn brydlon ac yn unol â meini prawf a gytunwyd.	CAM 13: UCHEL Diffinio Protocol Gorfodaeth ar gyfer polisïau/gweithdrefnau er mwyn cadarnhau a diogelu hawliau'r cyhoedd pan mae trafod, negodi, ewyllys da a chydweithio wedi methu erbyn 2020.

Cam 14

Mae cam 14 wedi'i weithredu'n rhannol, drwy ddatblygu hierarchaeth y rhwydwaith a ddefnyddir fel matrices sgorio i roi holl agweddau'r HTCau yn nhrefn blaenoriaeth, gan gynnwys gorfodaeth.

Er mwyn gweithredu'r cam hwn yn llwyddiannus, mae angen cwblhau cam 13 a fydd yn diffinio'r meini prawf cytunedig. Gall y term 'sicrhau' fod yn nod afrealistig, mae 'anelu' yn amcan mwy cyraeddadwy.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2025 - i gyd-fynd â chyflawni Cam 13

Cam 13

Ni chyflawnwyd allbwn y cam hwn erbyn y dyddiad targed. Bu pwysau sylweddol ar yr adnoddau staff sydd ar gael o fewn y tîm Mynediad i Gefn Gwlad ers cyhoeddi'r CGHT cyfredol.

Gan fod y dyddiad targed wedi mynd heibio, mae angen ei newid. Ac ystyried y pwysau ar y gwasanaeth i gynhyrchu amryw o ddogfennau strategol eraill yn y dyfodol agos, dylid diweddarau'r dyddiad targed i 2025.

Awgrymodd y FfMLI ddyddiad cwblhau cynharach, ond ceir darpariaethau statudol i gefnogi gorfodaeth, ac mae'r rhain yn llywodraethu gweithdrefnau gorfodi, ac mae canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi i lywodraethu gwerth gorau, felly nid yw'r gwasanaeth yn brin o weithdrefnau sydd wedi'u hategu'n dda.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2025

NOD 1: SICRHAU BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY YN HAWDD EI DDEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD.

D. MYNEDIAD I BAWB

O'r 3 cham a gyhoeddwyd o dan Nod 1C, gwelwyd lefelau amrywiol o lwyddiant gyda dau ohonynt, a chynnydd annigonol gydag un arall.

G	A	A
CAM 15: UCHEL Mabwysiadu polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol a dilyn egwyddorion "Trwy Bob Dull Rhesymol" gan ddefnyddio cyngor a chanllawiau priodol i wneud yr holl gynlluniau mynediad i gefn gwlad yn fwy hygrych.	CAM 16: CANOLIG Ymgysylltu â grwpiau ymgynghorol perthnasol sefydledig fel Cynghraid Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfleoedd i uwchraddio'r rhwydwaith ar gyfer pobl ag anableddau a defnyddwyr eraill llai abl. Hefyd, cymryd camau pendant i adnabod a phenodi aelod o'r FfMLI i gynrychioli buddiannau ac anghenion defnyddwyr anabl, oedrannus a llai abl.	CAM 17: UCHEL Datblygu Polisi Marchogol yn unol â Pholisi 6 er mwyn hyrwyddo a datblygu rhwydwaith hygrych at ddefnydd marchogol.

Cam 15

Llwyddwyd i gyflawni cam 15 yn sgil arferion gwaith a pholisi CSC newydd sydd wedi cefnogi'r ethos o greu'r mynediad lleiaf rhwystrol.

Mae gweithio gyda thirfeddianwyr fel partneriaid yn yr amcan hwn wedi sbarduno newidiadau cadarnhaol. Mae ceisiadau gwyr a cheisiadau am gelfi newydd wedi cael eu prosesu drwy ddefnyddio egwyddorion y mynediad lleiaf rhwystrol yn sail i benderfyniadau CSC.



Wrth gynllunio prosiectau gwella caiff uchelgeisiau'r mynediad lleiaf rhwystrol eu cynnwys, ac mae'r uchelgeisiau hynny wedi'u cyflawni gan amlaf.

Mae cyflwyno'r Polisi Codi Tâl am Gelfi ar HTCau yn ysgogi'r opsiynau celfi sy'n achosi'r lleiaf o rwstr, gan gynnig cymhorthdal ar gyfer yr opsiynau sy'n cynnig y mwyaf o hygyrchedd. Mae'r polisi hwn yn annog tirlfeddianwyr i weithio gyda CSC a mabwysiadu datrysiadau mynediad sy'n cynrychioli'r opsiwn lleiaf rhwystrol.

Mae canllawiau ar y polisi hwn wedi cael eu rhannu â'r tri phrif Undeb Ffermio a'r holl Gynghorwyr a'r FfMLI.

Mae darpariaethau'r polisi codi tâl wedi safoni darpariaeth celfi, ac mae hynny wedi symleiddio'r rheolaeth ar y cyflenwad o gelfi a chreu arbedion i gostau blynyddol y gwasanaeth. Mae costau gwirioneddol fesul blwyddyn wedi bod oddeutu £8k.

Awgrymodd y FfMLI ei bod hi'n bosibl na fydd modd cyflawni hyn yn achos yr 'holl Gynlluniau Mynediad i Gefn Gwlad', ac y byddai ymrwymiad llai yn rhesymol o bosib.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Ystyried cynrychiolaeth tirlfeddianwyr a grwpiau defnyddwyr yr effeithir arnynt gan benderfyniadau ynghylch mynediad a hygyrchedd ar y rhwydwaith HTCau. Ymdrechu i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal lle ystyrir bod angen hynny.	Aralleirio'r cam i "Mabwysiadu polisi'r Mynediad Lleiaf Cyfyngol a chadw at yr egwyddorion "Trwy Bob Dull Rhesymol" gan ddefnyddio cyngor a chanllawiau priodol i wella hygyrchedd cynlluniau mynediad i gefn gwlad <u>lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.</u> "
	Diweddarau'r gost amcangyfrifedig bob blwyddyn i £8k
	Ychwanegu Tirlfeddianwyr fel partneriaid i'r Cam hwn



Cam 16

Er nad oes cymaint o ymgysylltiad ag y gobeithiwyd â Grwpiau Anabledd / Symudedd Cyfyngedig pan gyhoeddwyd y CGHT, mae yna wahoddiad agored i gynrychiolydd o'r Gynghrair Anabledd, a bydd y gwahoddiad yn parhau i fod ar agor i'r Gynghrair hyd ddiwedd tymor y CGHT.

Byddai FfMLI Sir Gaerfyrddin yn elwa ar gael aelod o'r fforwm sydd â gwybodaeth benodol am faterion mynediad sy'n effeithio ar y rhai ag anableddau neu symudedd cyfyngedig. Byddai hyn yn golygu bod modd cynnal deialog agored yn rheolaidd â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad er mwyn gallu archwilio cyfleoedd yn drylwyr.

Cafodd gwahoddiad agored i aelodau newydd o'r FfMLI a chanddynt ddiddordeb mewn hamdden a mynediad i'r cyhoedd, gan gynnwys rhai a all gynrychioli'r rheini ag anableddau, ei gynnwys ar y wefan yn 2021. Gweler y [Fforwm Mynediad Lleol \(llyw.cymru\)](#).

Ar ôl cyflawni cynllun Pob Gallu rydym bellach wedi casglu tystiolaeth o gostau seilwaith gwirioneddol. Mae angen diweddaru amcangyfrif y gost flynyddol o weithredu'r cam hwn i £40k, a fydd yn galluogi cyflawni un cynllun Pob Gallu bob blwyddyn.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Mesurau pellach i hyrwyddo ymgysylltu mwy rhagweithiol â Grwpiau Anabledd sydd â diddordeb mewn Mynediad i Gefn Gwlad, gan gynnwys annog mwy o gynrychiolaeth yn y FfMLI o bosib.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Ystyried gofyn am wahoddiad i ymweld â chyfarfod y Gynghrair Anabledd i'w briffio ynghylch y prif faterion hygyrchedd cyfredol sy'n berthnasol i ddarpariaeth Mynediad i Gefn Gwlad.	Diweddaru'r gost amcangyfrifedig bob blwyddyn i £40k
	Ychwanegu grwpiau Pobl Anabl/Symudedd Cyfyngedig fel partneriaid i'r Cam hwn

Cam 17

Mae'r cam hwn wedi'i roi ar waith yn rhannol gyda'r camau cychwynnol i ddatblygu Strategaeth Marchogaeth wedi'u cwblhau. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori dull cymysg i lywio a goleuo'r strategaeth.

Mae penodau cyntaf y strategaeth ar ffurf drafft.

Ac ystyried goblygiadau ARAG FAR, mae angen i'r Strategaeth Marchogaeth ystyried newid posibl i ddeddfwriaeth yn y dyfodol a bod yn agored i adolygiad os daw'r ddeddfwriaeth newydd honno i rym.

Oherwydd prinder adnoddau staff nid ydym wedi gallu cwblhau'r strategaeth hyd yma. Ar sail capasiti cyfredol, dylid bod modd ei chwblhau erbyn diwedd 2024.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2024



NOD 2: DARPARU MAP A DATGANIAD DIFFINIOL DIBYNADWY, CYWIR A CHYFREDOL, SYDD AR GAEL YN

EANG

A. PARHAU I DDIWEDDARU'R MAP DIFFINIOL

O'r 3 cham a gyhoeddwyd o dan Nod 2A, cyflawnwyd 1 ohonynt yn foddhaol, a gwelwyd cynnydd annigonol yn achos 2.

G	A	C
CAM 19: CANOLIG Gwella ar berfformiad 2007-2017 trwy brosesu cyfanswm o 40 gorchymyn y.f. hyd at y cam gwneud Gorchymyn (gan gynnwys Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus [dargyfeiriadau, creu llwybrau newydd, cau llwybrau] a Gorchmynion Addasu [hawliadau anghysonderau llwybrau, dileadau])	CAM 18B: CANOLIG Gwella perfformiad gwneud Gorchmynion blynyddol i 45- 50 Gorchymyn y.f., a'r rhan fwyaf ohonynt yn Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol heb eu cwblhau.	CAM 18A: UCHEL Gwella ar berfformiad 2007-2017 trwy brosesu cyfanswm o 40 gorchymyn y.f. hyd at y cam gwneud Gorchymyn (gan gynnwys Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus [dargyfeiriadau, creu llwybrau newydd, cau llwybrau] a Gorchmynion Addasu [hawliadau anghysonderau llwybrau, dileadau])

Cam 19

Mae'r cam hwn wedi'i weithredu'n foddhaol gydag adolygiad blynyddol o daliadau'n cael ei gynnal yn rhan o'r adolygiad cryno o daliadau corfforaethol.

Mae'r gost amcangyfrifedig yn fwy na'r costau gwirioneddol a gafwyd, sef tua £500.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r gost amcangyfrifedig fesul blwyddyn i £500

Cam 18B

Mae'r broses o weithredu'r cam hwn yn parhau, ond ystyrir bod 40-45 o Orchmynion y flwyddyn yn afrealistig heb gynyddu adnoddau.

Rhwng dechrau'r CGHT a dechrau casglu data ar gyfer yr adolygiad hwn, mae 18 o Orchmynion wedi'u Cadarnhau ac 13 ar y gweill.

Mae hwn yn ffigur cadarnhaol i'r gwasanaeth ac ystyried faint o adnoddau staff oedd ar gael dros y cyfnod hwn, ond mae'n sylweddol is na'r targed a osodwyd.

Os mabwysiedir egwyddorion ARAG FAR, bydd y broses o greu Gorchymyn yn symlach ac yn creu llai o gostau, felly gallai'r targed yn y cam hwn ddod yn fwy cyflawnadwy.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Cyfuno camau 18B ac 18A i greu un Cam 18. Ni ellir gweld unrhyw werth mewn cyhoeddi dau gam uchelgeisiol ag allbynnau allweddol tebyg.

Cam 18A

Mae'r broses o weithredu'r cam hwn yn parhau, ond ystyrir bod 40 o Orchmynion y flwyddyn yn afrealistig heb gynyddu adnoddau.

Rhwng dechrau'r CGHT a dechrau casglu data ar gyfer yr adolygiad hwn, mae 14 o Orchmynion wedi'u creu ac 13 ar y gweill. Mae hwn yn ffigur cadarnhaol i'r gwasanaeth ac ystyried faint o adnoddau staff oedd ar gael dros y cyfnod hwn, ond mae'n sylweddol is na'r targed a osodwyd.

Os mabwysiedir egwyddorion ARAG FAR, bydd y broses o greu Gorchymyn yn symlach ac yn creu llai o gostau, felly gallai'r targed yn y cam hwn ddod yn fwy cyflawnadwy.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Cyfuno camau 18B ac 18A i greu un Cam 18. Ni ellir gweld unrhyw werth mewn cyhoeddi dau gam uchelgeisiol ag allbynnau allweddol tebyg.

NOD 2: DARPARU MAP A DATGANIAD DIFFINIOL DIBYNADWY, CYWIR A CHYFREDOL, SYDD AR GAEL YN EANG.

B. CYNHYRCHU MAP DIGIDOL DIFFINIOL

Mae'r cam unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 2B wedi'i gyflawni'n foddhaol.

G
CAM 20: CANOLIG Parhau i weithio tuag at 100% archwiliad o fap digidol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (CAMS) trwy gynnal adolygiad parhaus o haen Hawliau Tramwy Cyhoeddus ddigidol.

Cam 20

Mae gwaith i archwilio map digidol HTCau Sir Gaerfyrddin yn parhau, gan gywiro'r map digidol yn erbyn y map diffiniol, a thynnu sylw at anomaledau ar y map i'w hystyried yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r archwiliad, mae gan system CAMS haenau niferus o ddata er mwyn helpu i reoli'r rhwydwaith HTCau yn effeithlon, ac mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hychwanegu/diwygio a'i gwella'n barhaus.

Os mabwysiedir darpariaethau ARAG FAR, bydd cynnydd yn y ffocws ar fapio mynediad yn ddigidol, a gellid bod angen diwygio'r cam hwn i gynnwys targed cwblhau a blaenoriaeth uwch.

Dylai'r cam fod yn uchel ei flaenoriaeth. Er hyn, dylid dileu'r cyfeiriad at 100% gan fod hyn yn amhosib i'w gyflawni ac ystyried y ddyletswydd i adolygu'r Map Diffiniol yn barhaus.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Newid y flaenoriaeth i Uchel
	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

NOD 2: DARPARU MAP A DATGANIAD DIFFINIOL DIBYNADWY, CYWIR A CHYFREDOL, SYDD AR GAEL YN

EANG

C. FFYRDD COLL

Mae'r cam unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 2C wedi'i gyflawni'n foddhaol.

G
CAM 21: UCHEL Ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd ar gyfer Gorchmynion Addasu i ychwanegu Hawliau Tramwy hanesyddol heb eu cofrestru at y Map a Datganiad Diffiniol fel mater o flaenoriaeth.

Cam 21

Llwyddwyd i weithredu'r cam hwn, lle daeth tystiolaeth i law. Mae CSC a'r FfMLI yn cynnig y dylid diwygio'r dyddiad targed ar gyfer y cam hwn i 2029.

Nid yw dyddiad cau 2026 ar gyfer cofrestru HTCau hanesyddol nad ydynt wedi'u cofnodi ar hyn o bryd, ac a orfodwyd yn sgil Deddf CROW 2000 wedi dod i rym yng Nghymru, ac ar hyn o bryd rhagwelir y bydd hynny'n annhebygol o ddigwydd.

Gosodwyd blaenoriaeth uchel ar gyfer Cam 21 gan ragweld faint o dystiolaeth y gellid bod angen ei phrosesu fel bo modd creu Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol mewn modd amserol, gan roi ystyriaeth i'r dyddiad cau o 2026. Os mai'r farn gyfredol yw na fydd dyddiad cau 2026 yn cael ei weithredu yng Nghymru, gellid lleihau blaenoriaeth y cam hwn i Ganolig.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Adolygu blaenoriaeth cam 21 yn amodol ar benderfyniad pendant gan LIC ynghylch dyddiad cau 2026.	Dim

NOD 3: SICRHAU BOD Y CYFLEOEDD I GAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD.

A. PARCIAU GWLEDIG

Mae'r cam gweithredu unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 3C wedi'i gyflawni'n foddhaol.

G
CAM 22: UCHEL Bydd CSC yn parhau i hyrwyddo Parciau Gwledig y Cyngor yn gyfleusterau i'w mwynhau gan y cyhoedd.

Cam 22

Hyrwyddir Parciau Gwledig CSC drwy wefan Darganfod Sir Gaerfyrddin: <https://www.darganfodsirgar.com/>

Mae'r FfMLI wedi nodi gwelliannau posibl i wefan Darganfod Sir Gâr, gan nad yw cyrchfannau fel Parc Coetir Mynydd Mawr wedi cael eu hyrwyddo'n flaenorol.

Mae'r FfMLI hefyd wedi nodi y dylid cynnwys pob dull teithio wrth hyrwyddo mynediad, ac nid cerdded a beicio yn unig.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Bydd y Cyngor Sir yn adolygu'r deunydd hyrwyddo a'r cyfleusterau a ddarperir, i wirio eu bod yn ystyried anghenion yr holl ddefnyddwyr a'r holl ddulliau trafndiaeth a ddefnyddir i gael mynediad i Barciau Gwledig Sir Gaerfyrddin.	Dim
Bydd y FfMLI yn ystyried cydweithio â CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i hyrwyddo llwybrau a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd.	

**NOD 3: SICRHAU BOD Y CYFLEOEDD I GAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU
DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD**

B. CEFN GWLAD AGORED

Mae'r cam gweithredu unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 3B wedi'i gyflawni i raddau amrywiol.

A
CAM 23: ISEL Sicrhau bod yr holl fannau mynediad cyhoeddus a gynhelir neu wedi'u gwella i flociau o dir mynediad yn cynnwys arwyddion yn dangos y symbolau mynediad cenedlaethol.

Cam 23

Mae CSC yn gyfrifol am fynediad y cyhoedd i Dir Mynediad Agored, ac mae ganddo amrywiaeth o bwerau cysylltiedig i greu, cynnal a gwella llwybrau mynediad.

Ychydig iawn o alw a welir gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad am yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y cam hwn. Fodd bynnag, mae CSC yn ymdrechu i greu pwyntiau mynediad newydd neu wedi'u gwella i dir mynediad agored lle bydd cais yn dod i law neu gyfle'n codi.

Mae 'Sicrhau' yn derm afrealistig ar gyfer y cam hwn. Mae angen diwygio'r geiriad fel bo'n briodol.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio geiriad y cam gweithredu i "Pan fydd cyfleoedd yn codi, gweithio gyda thirfeddianwyr, CNC a Grwpiau Defnyddwyr, i osod arwyddion priodol ac arnynt y symbolau mynediad cenedlaethol ar leoliadau pwyntiau mynediad cyhoeddus a gaiff eu cynnal neu eu gwella i flociau o dir mynediad."

NOD 3: SICRHAU BOD Y CYFLEOEDD I GAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU

DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD

C. ARDALOEDD PICNIC A GWARCHODFEYDD NATUR

Mae'r cam gweithredu unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 3C wedi'i weithredu'n foddhaol.

G
CAM 24: CANOLIG Gofalu am y safleoedd picnic a'r gwarchodfeydd natur presennol sydd dal yng ngofal yr awdurdod lleol / tîm mynediad i gefn gwlad a gofalu y gwneir trefniadau cynnal a chadw cadarn er mwyn sicrhau bod yr holl safleoedd yn parhau i fod mewn cyflwr da.

Cam 24

Mae hwn yn gam parhaus sy'n cael ei weithredu ar y cyd gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad a'r Gwasanaeth Hamdden. Mae'n gam gweithredu a bydd yn parhau tan ddiwedd tymor y CGHT.

Mae amserlen ar waith er mwyn i'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad gynnal a chadw safleoedd picnic yn rheolaidd.

Mae cynlluniau rheoli cadarn ar waith ar gyfer safleoedd y Gwarchodfeydd Natur, wedi'u datblygu a'u gweithredu gan yr is-adran Hamdden.

Does dim angen enwi'r Awdurdod Lleol na'r Gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad. Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys yr holl wasanaethau sy'n gyfrifol am weithredu.

Yn ôl y FfMLI, mae'r nod o 'sicrhau' y bydd rhywbeth yn digwydd yn afrealistig.

Commented [DVX31]: is this sentence correct?



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Aralleirio'r cam gweithredu i "Cynnal safleoedd picnic a gwarchodfeydd natur presennol sy'n dal i fod yng ngofal yr awdurdod lleol, gan ddatblygu a gweithredu trefniadau cynnal a chadw cadarn er mwyn cadw'r holl safleoedd mewn cyflwr da.

NOD 3: SICRHAU BOD Y CYFLEOEDD I GAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU

DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD

D. TEITHIO LLESOL

O'r 2 gam a gyhoeddwyd o dan Nod 3D, mae'r ddau wedi cael eu rhoi ar waith yn foddhaol.

G	G
CAM 25: CANOLIG Cynorthwyo'r tîm Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd yn y gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw llwybrau beiciau yn unol â Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin a'r Ddeddf Teithio Llesol.	CAM 26: CANOLIG Cynnig cyngor rheolaidd i'r tîm Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd ar gynlluniau sy'n cael eu datblygu o dan y Ddeddf Teithio Llesol a/neu'r Strategaeth Cerdded a Beicio.

Cam 25

Mae hwn yn gam parhaus sydd wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus hyd yma. Mae'r gwaith o ddatblygu seilwaith Teithio Llesol yn cael ei arwain gan y tîm Trafnidiaeth a Seilwaith. Dylai pwysigrwydd cynlluniau Teithio Llesol ysgogi blaenoriaeth uwch ar gyfer y cam hwn.

Ac eithrio'r llwybrau hynny a gynhelir gan Sustrans, Priffyrdd sy'n cynnal y rhan fwyaf o'r llwybrau, a'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad sy'n gofalu am y llwybrau hynny sy'n bodoli dros HTCau yn unig.



Rhagwelir y bydd CSC yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros gynnal a chadw llwybrau Teithio Llesol oddi ar y ffordd, gan gefnogi Strategaeth Beicio Sir Gaerfyrddin. Bydd y gyllideb ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ychwanegol hwn yn cael ei drosglwyddo i Mynediad i Gefn Gwlad.

Bydd y cam hwn yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT.

Dywedodd aelodau'r FfMLI nad oedd rhyw lawer o ymgysylltu rhwng y fforwm a'r tîm Trafnidiaeth a Seilwaith.

O'i fabwysiadu, byddai ARAG FAR yn cynyddu'r ffocws ar feicio a Theithio Llesol, ac yn codi'r Cam hwn i flaenoriaeth uwch o ganlyniad i hynny.

Costau gwirioneddol tua £60k.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Cynyddu'r ymgysylltiad rhwng y FfMLI a'r tîm Trafnidiaeth a Seilwaith.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Monitro gweithrediad ARAG FAR ac ystyried newidiadau angenrheidiol i'r camau yn y CGHT yn unol â deddfwriaeth/canllawiau diwygiedig.	Diwygio'r gost amcangyfrifedig fesul blwyddyn i £60k
	Codi blaenoriaeth y cam gweithredu o Ganolig i Uchel.

Cam 25

Mae hwn yn gam parhaus sydd wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus hyd yma.

Rhoddir cyngor i'r tîm Trafnidiaeth a Seilwaith er mwyn helpu i gyflawni cynlluniau'n llwyddiannus, gan ddiogelu'r cofnod cyfreithiol o hawliau'r cyhoedd ar yr un pryd.



Dylai pwysigrwydd cynlluniau Teithio Llesol ysgogi blaenoriaeth uwch ar gyfer y cam hwn.

Dywedodd aelodau'r FfMLI nad oedd rhyw lawer o ymgysylltu rhwng y fforwm a'r tîm Trafnidiaeth a Seilwaith.

O'i fabwysiadu, byddai ARAG FAR yn cynyddu'r ffocws ar feicio a Theithio Llesol, ac yn codi'r Cam hwn i flaenoriaeth uwch o ganlyniad i hynny.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Gwahodd cynrychiolydd o'r tîm Trafnidiaeth a Seilwaith i fynychu cyfarfodydd y FfMLI i roi'r newyddion diweddaraf am y cynlluniau sy'n cael eu datblygu, gan roi cyfle i'r FfMLI gynnig cyngor.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Monitro gweithrediad ARAG FAR ac ystyried newidiadau angenrheidiol i'r camau yn y CGHT yn unol â deddfwriaeth/canllawiau diwygiedig.	Codi blaenoriaeth y cam gweithredu o Ganolig i Uchel.

NOD 3: SICRHAU BOD Y CYFLEOEDD I GAEL MYNEDIAD I GEFN GWLAD YN HAWDD EU

DEFNYDDIO AC YN CYNNIG MWYNHAD.

E. ARFORDIR A CHOEDWIGAETH

O'r 2 gam a gyhoeddwyd o dan Nod 3E, mae 1 wedi'i weithredu'n foddhaol, ac 1 wedi'i weithredu i raddau amrywiol.

A	A
CAM 27: UCHEL Gweithio gyda mudiadau partner a rhanddeiliaid perthnasol i gynnig cynifer o gyfleoedd mynediad i arfordir a choedwigaeth i gynifer ag y bo modd o grwpiau defnyddwyr, gan wneud ymdrechion i wella mynediad i bawb a dangynrychiolir mewn rhannau eraill o'r rhwydwaith mynediad.	CAM 28: CANOLIG Cynnwys mewn gwaith cyhoeddusrwydd pa ddarnau o goedwigaeth ac arfordir mynediad agored sydd ar gael i ba grwpiau defnyddwyr.

Cam 27

Dyma gam parhaus sydd wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus wrth i gyfleoedd godi.

Nid yw CSC yn cynnal nac yn hyrwyddo mynediad i ystâd Coedwigaeth LIC, CNC sy'n gwneud hynny. Rôl CSC yw cynorthwyo i hyrwyddo mynediad i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl, a gwneir hynny'n bennaf drwy dudalennau gwe Darganfod Sir Gâr.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r targed i 2029

Cam 28

Dyma gam parhaus sydd wedi'i weithredu'n rhannol drwy wefan Darganfod Sir Gâr lle caiff cerdded a beicio eu hyrwyddo, gan gynnwys gwybodaeth am leoliadau unigol fel hygyrchedd i gadeiriau olwyn.

Nid oes unrhyw dudalennau penodol ar Darganfod Sir Gâr i ddefnyddwyr eraill, fel marchogion.

Mae gwefan CNC yn graddio llwybrau ar draws ystâd LIC o ran anhawster, yn rhoi manylion am gyfleusterau sydd ar gael, fel safle picnic ac addasrwydd i wersylla. Cyflwynir y wybodaeth hon gydag eiconau clir.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Adolygu gwybodaeth ar Darganfod Sir Gâr a chanfod lle gellir gwneud gwelliannau posib o ran hyrwyddo mynediad.	Diwygio'r targed i 2029

NOD 4: PARHAU I WEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R HOLL BARTÏON PERTHNASOL SYDD Â DIDDORDEB ER MWYN

CAEL GWELL CYFLEUSTERAU I GEFN GWLAD

A. HYRWYDDO PARTNERIAETHAU

O'r 6 o gamau a gyhoeddwyd o dan Nod 4A, cyflawnwyd 1 ohonynt yn foddhaol, a gwelwyd llwyddiant amrywiol gyda'r 5 arall.

G	A	A	A	A	A
CAM 33: CANOLIG Parhau i weithio ar y cyd i hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus trwy gysylltiadau gyda darparwyr trafndiaeth gyhoeddus e.e. teithiau cerdded trên a/neu deithiau cerdded bws.	CAM 29: CANOLIG Parhau i gynnal arolygon rhagweithiol o'r rhwydwaith mynediad fesul cymuned ar y cyd â chynghorau lleol a grwpiau gwirfoddol.	CAM 30: UCHEL Parhau i hyrwyddo partneriaethau gyda chynghorau cymuned, tîrfeddianwyr a sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i wella mynediad i gefn gwlad.	CAM 31: UCHEL Sicrhau cyllid a.106 ar gyfer gwelliannau i Hawliau Tramwy a mynediad i gefn gwlad er mwyn diwallu'r anghenion a gynhyrchir gan ddatblygiadau newydd.	CAM 32: CANOLIG Parhau i weithio gyda chynlluniau amaeth-amgylchedd er mwyn sicrhau gwelliannau hirdymor a gwneud gwaith gorfodaeth i'r rhwydwaith mynediad.	CAM 34: UCHEL Parhau i weithio gyda'r BHS a grwpiau marchogaeth ceffylau eraill i wella darpariaeth farchogol, gan gynnal gwybodaeth ymarferol am y Concordat rhwng CNC a'r BHS a chydweithio gyda mudiadau gyrru oddi ar y ffordd fel y TRF a Tread Lightly er mwyn nodi cyfleoedd gyrru oddi ar y ffordd yn y Sir.

O dan Nod 4A, mae Sir Gaerfyrddin wedi perfformio'n foddhaol mewn perthynas â cham 33.

Cam 33

Mae CSC wedi bod yn llwyddiannus wrth weithredu'r Cam hwn. Mae cyfranogiad y timau Hawliau Tramwy yn Llwybr Rheilffordd Calon Cymru yn enghraifft dda o'r cydweithio dan sylw.

Mae'r cam hwn ar y gweill a bydd yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT. Mae'r costau blynyddol gwirioneddol wedi bod tua £5k.

Nod Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yw annog newid i model trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy, a bydd ffocws cynyddol ar drafnidiaeth integredig o gymorth er mwyn parhau i weithredu'r Cam hwn.

Mae CSC yn cefnogi arweinwyr prosiect allanol yn y cam hwn a bydd yn ymdrechu i barhau i wneud hynny hyd ddiwedd tymor y CGHT.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Diwygio'r gost amcangyfrifedig fesul blwyddyn i £5k

O dan Nod 4A, mae perfformiad Sir Gaerfyrddin wedi amrywio o ran llwyddiant mewn perthynas â chymau 29, 30, 31, 32 a 34.

Cam 29

Mae arolygon HTC cymunedol wedi cael eu cynnal yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'r rhai mwyaf diweddar gan amlaf wedi ymwneud â phrosiectau penodol. Mae arolwg o'r rhwydwaith wedi'i gynllunio, ond heb ei gyflawni eto.

Drwy gyllid a sicrhawyd yn 2023, llwyddwyd i benodi Swyddog Prosiect sy'n gyfrifol am gydlynw gwirfoddolwyr i gynnal yr arolwg o 100% o'r rhwydwaith.

Bwriedir dechrau'r arolygon yn 2024 a'u cwblhau erbyn 2026 ac y byddant yn darparu data ar gyflwr yr holl rwydwaith HTCau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd wedi'i hymgorffori yng Ngweledigaeth y Cabinet, yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu a gweithio ar y cyd; drwy wrando ar gymunedau a deall beth yw eu barn a'u hanghenion o ran mynediad, gallwn gael hyd i gyfleoedd gwell i bob defnyddiwr.

Cyllid wedi'i sicrhau i ariannu blwyddyn un o brosiect yr arolwg - £45k.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2026
	Diwygio'r gost amcangyfrifedig fesul blwyddyn i £45k



Cam 30

Mae gwaith i hyrwyddo partneriaethau yn parhau. Fodd bynnag, nid ydym ar hyn o bryd yn gwybod pa mor lwyddiannus fu'r partneriaethau o ran gwneud y gorau o adnoddau.

Er mwyn mesur llwyddiant mae angen llinell sylfaen a gwybodaeth am y modd y gwnaed y gorau o adnoddau er mwyn gwella mynediad i gefn gwlad. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd.

Awgrymir y gellid mesur llwyddiant y cam hwn yn oddrychol drwy nodi prosiectau gwella rhwydwaith sydd wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i'r partneriaethau hyn.

Dylid ychwanegu grwpiau defnyddwyr at y cam hwn, fel partneriaid er mwyn ei weithredu.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Defnyddio astudiaethau achos i ddangos sut y gallai partneriaethau fod wedi cyfrannu at wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i wella mynediad; dylai adnoddau gynnwys llafur gwirfoddol a deunyddiau.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Ychwanegu grwpiau defnyddwyr fel partner.

Cam 31

Mae rôl Swyddog Prosiect wedi'i chreu a fydd, ar ôl i'r swydd gael ei llenwi, yn cefnogi'r Cam hwn. Bydd y Cam yn barhaus hyd ddiwedd tymor y CGHT hwn, ac ar ôl hynny fwy na thebyg.

Bydd creu'r rôl hwn yn fodd i frwr ymlaen â'r cam hwn, drwy gyflwyno unigolyn penodol i geisio cyfleoedd am gyllid, fel a106.



I sicrhau cyllid a106 ar gyfer gwelliannau i HTCau, bydd angen cyflwyno ceisiadau mewn modd amserol.

Dylai cael swyddog penodol ar gyfer hyn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd am gyllid ar gyfer gwaith gwella mynediad cymwys, gan gynnwys arian a106.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Cyfarwyddo swyddog prosiect newydd (ar ôl ei benodi) i geisio cyllid a106	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
.	

Cam 32

Yn nodweddiadol, mae cynlluniau Amaethyddol-Amgylcheddol wedi bod yn brin o adnoddau, felly nid oes rhyw lawer o bosibilrwydd i gynnwys gwelliannau mynediad o fewn y cynlluniau.

Ychydig iawn o ymgynghori a geir ynghylch ceisiadau am gyllid Amaethyddol-Amgylcheddol, sy'n golygu mai anaml y bydd CSC yn cael gwybod am gynlluniau. Fodd bynnag, pan fydd ymgynghori'n digwydd, bydd CSC yn ymdrechu i sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o ganlyniadau cadarnhaol o ran mynediad.

Ychydig o wariant er mwyn cyflawni'r cam hwn oherwydd y lefel isel o ymgynghori. Bydd y cam yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Trafod yr anawsterau wrth weithredu newidiadau cadarnhaol o ran mynediad drwy gynlluniau Amaethyddol-Amgylcheddol yng nghyfarfod cadeiryddion FfMLI.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Parhau i annog Glastir (a chyrrff perthnasol eraill) i ymgynghori â Chyngor Sir Caerfyrddin, mewn perthynas â cheisiadau am gynlluniau Amaethyddol-Amgylcheddol	Diwygio'r gost amcangyfrifedig fesul blwyddyn i £5k



.	
---	--

Cam 34

Ceir cysylltiad parhaus rhwng sefydliadau marchogaeth a sefydliadau gyrru oddi ar y ffordd drwy'r FfMLI.

Bu gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer ceffylau gyda 2 lwybr ceffylau newydd yn cael eu creu rhwng 2018 a 2022. Ychydig o welliannau a nodwyd o ran gyrru oddi ar y ffordd dros y cyfnod hwn.

Awgrymodd aelodau'r FfMLI fod llwyddiant y cam gweithredu hwn yn ddibynnol ar y Strategaeth Marchogaeth.

Concordat Cymdeithas Ceffylau Prydain â CNC yw hyrwyddo mynediad cyfrifol gan farchogion i ystâd coetir LIC.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Ystyried canlyniadau'r strategaeth marchogaeth (ar ôl iddi gael ei chyhoeddi) o ran cyflawni'r cam hwn.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

**NOD 4: PARHAU I WEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R HOLL BARTÏON PERTHNASOL SYDD Â DIDDORDEB ER MWYN CAEL
GWELL CYFLEUSTERAU I GEFN GWLAD**

B. GWIRFODDOLWYR

Mae'r cam gweithredu unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 4B wedi'i weithredu'n rhannol.

A
CAM 35: UCHEL Gwneud cymaint o ddefnydd ag y bo modd o grwpiau gwirfoddol lleol er mwyn paratoi ar gyfer a darparu rhaglenni gwelliannau a chynnal a chadw ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Cam 35

Mae'r cam hwn ar y gweill, ac fe gafwyd camau cadarnhaol sylweddol yn ystod 2022 a 2023.

Yn ystod rhan gyntaf tymor y CGHT rydym wedi defnyddio cyngorau cymuned lleol a grwpiau fel Cerddwyr Llanelli a Chrwydrwyr Betws i wirfoddoli ar y rhwydwaith HTCau, yn gwneud mân swyddi cynnal a chadw, gan greu newidiadau cadarnhaol iawn yn gyfnewid am ychydig iawn o fuddsoddiad ariannol.

Yn sgil sicrhau £45k o gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2023, mae Swyddog Prosiect Gwirfoddolwyr wedi'i ariannu drwy grant bellach wedi'i benodi ar gyfer Sir Gaerfyrddin.



Y prosiect gwirfoddolwyr cyntaf a arweinir drwy'r swydd a ariennir drwy grant yw'r arolwg o 100% o'r rhwydwaith. Bydd y data a gesglir o'r arolwg wedyn yn cael eu defnyddio'n sail ar gyfer prosiectau gwella ledled y Sir.

Rydym yn rhagweld y bydd yr arolwg yn dechrau'n fuan yn 2024, ac y bydd yn cymryd tua 2 flynedd i'w gwblhau.

O edrych i'r dyfodol, bydd y gweithlu o wirfoddolwyr newydd a benodir hefyd yn gwneud gwaith ffisegol ar y rhwydwaith, a gobeithiwn y byddwn yn gweld y math hwn o waith yn cael ei gwblhau'n flynyddol hyd ddiwedd tymor y CGHT a thu hwnt.

Gwnaeth y FfMLI sylw ynghylch pwysigrwydd defnyddio gwirfoddolwyr oherwydd prinder cyllid.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Parhau i gefnogi'r Swyddog Prosiect Gwirfoddolwyr a cheisio cyllid i gadw'r swydd am y tymor hwy.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029



**NOD 5: HYRWYDDO – CYNNAL A GWELLA YSTOD AC ANSAWDD GWYBODAETH GYHOEDDUS AR FYNEDIAD A
HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS A'I GWNEUD AR GAEL YN FWY EANG MEWN FFORMATAU
PRIODOL**

A. CYFFREDINOL

Mae'r cam gweithredu unigol a gyhoeddwyd o dan Nod 5A wedi'i weithredu'n rhannol.

A
CAM 36: UCHEL Gweithio gydag adrannau perthnasol ac asiantaethau i wella cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad i bobl yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd.

Cam 36

Bu cynnydd gyda'r cam hwn, yn sgil gwelliant cyffredinol i gyfleoedd am fynediad, ond mae'r cam yn un parhaus, er mwyn galluogi gwelliannau pellach a allai ymdrin yn fwy penodol ag ardaloedd o amddifadedd.

I fesur llwyddiant yn fwy manwl gywir, mae angen pennu llinell sylfaen er mwyn sefydlu'r meini prawf ar gyfer cymuned amddifadus.

Gallai gweithio gyda thimau sy'n ymdrin ag ardaloedd o amddifadedd fod yn fuddiol er mwyn cael dealltwriaeth well o'r cyfleoedd i wneud gwelliannau.

Holodd y FfMLI a oes digon o ystyriaeth ynghylch a yw'r Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n ddifreintiedig, o ran y gallu i gael mynediad i gefn gwlad.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Rhoi cadarnhad i'r FfMLI ynghylch pwy sy'n arwain agweddau ar amddifadedd o fewn CSC, a gwahodd cynrychiolydd i gyfarfod y FfMLI i esbonio'r meini prawf y dylid eu defnyddio.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Cael dealltwriaeth well o anghenion pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd er mwyn adnabod cyfleoedd yn rhwyddach.	
Ystyriwch diwygio geiriad y cam gweithredu yn ôl yr angen yn dilyn canlyniad y tasgau a nodwyd.	

**NOD 5: HYRWYDDO – CYNNAL A GWELLA YSTOD AC ANSAWDD GWYBODAETH GYHOEDDUS AR FYNEDIAD A
HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS A'I GWNEUD AR GAEL YN FWY EANG MEWN FFORMATAU
PRIODOL**

B. DEUNYDD CYHOEDDUSRWYDD

O'r 6 cham a gyhoeddwyd o dan Nod 5B, cyflawnwyd 3 ohonynt yn foddhaol, gwelwyd llwyddiant amrywiol gyda 3 ohonynt, a gweithrediad annigonol yn achos 2 arall.



	G		A	A	C	A	C
CAM 37: UCHEL Darparu deunydd hyrwyddo cyfredol ar gyfer Hawliau Tramwy sy'n cael eu hyrwyddo.	CAM 38: UCHEL AM GWEITHREDU 39: Ynghyd â thywyslyfrau CNC a'r gwaith hyrwyddo ar-lein ar gyfer LIAC, gofalu fod y wybodaeth ar wefan CSC ar gyfer y darn o LIAC sydd yn Sir Gaerfyrddin yn gyfredol a manwl-gywir.	CAM 39 UCHEL Gofalu fod yr holl ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer Llwybrau'r Sir yn cael eu cadw'n gyfredol trwy adolygiad parhaus.	Cam 40 ISEL Ystyried creu rhagor o Lwybrau'r Sir neu ailgyflwyno teithiau cerdded a hyrwyddwyd yn y gorffennol pan mae pobl leol neu Grwpiau Defnyddwyr yn nodi fod angen hynny a phan fod digon o adnoddau ar gael i greu, gwella, cynnal a chadw a hyrwyddo llwybrau ychwanegol. Wrth wneud hynny, ystyried a oes cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gael.	CAM 41: CANOLIG Gwneud rhagor o welliannau i wefan y Cyngor Sir trwy ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd mynediad i gefn gwlad ac ar gyfer pob defnyddiwr, gan gynnwys: a. Gwella'r wybodaeth gyffredinol ar gyfer y cyhoedd a thirfeddianwyr. b. Pecynnau cais am Orchymynion Addasu Mapiau Diffiniol (hawliadau) a Gorchymynion Llwybrau Cyhoeddus (dargyfeiriadau, cau llwybrau ac ati) c. Ffurflenni cwynion ar-lein d. Cofrestr ar-lein o geisiadau Gorchymynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchymynion Llwybrau Cyhoeddus ac adneuo a31(6). e. Statws gweithredol y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Hefyd, gweithio i wella'r wybodaeth am FfMLI Sir Gaerfyrddin trwy: Canolig £8k Na 2025 CSC Fforwm Mynediad Lleol Cyngor Sir Gâr - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 54 a. Ychwanegu mwy o wybodaeth gyffredinol b. Cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd c. Darparu diweddariadau am gyfarfodydd a lleoliadau	CAM 42: UCHEL Darparu gwybodaeth reolaidd ynghylch gwell cyfleoedd marchogaeth ceffylau, marchogol a thwristiaeth yn y Sir i gynrychiolydd lleol y BHS, Carmarthenshire Riders a grwpiau eraill tebyg i'w chynnwys yn eu deunyddiau hyrwyddo. Annog cylchrediad eang i'r deunyddiau hyrwyddo.	CAM 44 UCHEL Hyrwyddo nanteision ymdeithasol, economaidd ac echyd cerdded, narchogaeth a peicio trwy aglenni gweithgareddau digwyddiadau newn parciau gwledig, strategaeth cerdded a peicio CSC a strategaeth archogol arfaethedig CSC.	CAM 43 UCHEL Darparu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd ar gyfer pobl a chanddynt symudedd cyfyngedig ac amhariadau eraill ar gyfer grwpiau fel Cynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin i'w chynnwys yn eu deunyddiau hyrwyddo. Annog cylchrediad eang i'r deunyddiau hyrwyddo.

Commented [DVX32]: ???

Cam 37

Mae Is-grŵp i'r FfMLI wedi cael ei greu er mwyn gweithredu'r cam hwn. Yn sgil y gwaith da a wnaed gan yr is-grŵp, gyda chymorth tîm Marchnata CSC a chyfraniadau gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad drwy 2022 a 2023, mae'r holl ddeunydd hyrwyddo ar gyfer yr holl Deithiau Cerdded Sirol bellach wedi'i adolygu.

Mae'r deunydd diwygiedig wedi cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe Darganfod Sir Gâr ac mae unrhyw ddeunydd sydd wedi'i ddyblygu, sy'n anghywir neu sydd wedi dyddio wedi'i dynnu o'r tudalennau. Mae fformat a chynllun y deunydd hefyd wedi cael ei adolygu, a dolenni defnyddiol wedi'u hychwanegu.

Mae adolygiad parhaus o wybodaeth yn mynd rhagddo ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i ddarparu deunydd ychwanegol ar-lein a fydd yn rhoi gwybodaeth well i drigolion ac i ymwelwyr am y cyfleoedd mynediad a gynigir drwy'r rhwydwaith HTCau a hyrwyddir gan Sir Gaerfyrddin. Mae rhywfaint o ddeunydd printiedig hefyd dan ystyriaeth.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Parhau i weithio gyda'r is-grŵp i wella deunydd hyrwyddo.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029

Cam 38

Mae deunydd hyrwyddo cyfredol am y darn o Lwybr Arfordir Cymru sydd o fewn Sir Gaerfyrddin wedi cael ei ychwanegu at wefan Darganfod Sir Gâr, gan ddarparu dolén gyswllt i Lwybr Arfordir Cymru. Mae adolygiad parhaus o wybodaeth yn mynd rhagddo.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Diwygio'r dyddiad targed i 2029



Cam 39

Wedi i'r FfMLI ganfod bylchau a chamgymeriadau mewn gwybodaeth hyrwyddo, cafodd is-grŵp i'r FfMLI ei greu er mwyn diweddarw/cywiro gwybodaeth, ac mae'r deunydd hyrwyddo hwnnw'n cael ei adolygu'n barhaus - rhagor o fanylion o dan Gam 37 uchod.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Dim	Dim

Cam 40

Cam gweithredu isel ei flaenoriaeth heb unrhyw adnoddau ariannol i gynyddu'r portffolio Teithiau Cerdded Sirol.

Rhoddwyd ystyriaeth i ychwanegu Teithiau Cerdded Sirol newydd os cânt eu cynnig, ond nid oes unrhyw deithiau cerdded ychwanegol wedi cael eu cyflwyno gan y byddai hynny'n anghynaliadwy ar hyn o bryd.

Gan fod y cam yn cyd-fynd â nifer o bolisiau rhanbarthol a chenedlaethol presennol fel Llwybr Newydd a Datganiad Gweledigaeth y Cabinet, dylid rhoi blaenoriaeth uwch iddo.

Gellid cael adnoddau ychwanegol i alluogi gweithrediad pellach o gydweithio â chymunedau lleol a sefydliadau eraill ar y cam gweithredu, ond byddai cynaliadwyedd o ran cynnal Teithiau Cerdded hyd at y safon ddisgwyliedig yn dal i fod yn heriol i'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad.

Cododd y FfMLI gwestiwn ynghylch y defnydd cyfnewidiol o'r termau 'Teithiau Cerdded Sirol' a 'theithiau cerdded a hyrwyddir' Awgrymwyd y dylid adolygu'r defnydd o'r termau.

Mae angen adolygu'r costau i ailgyflwyno Taith Gerdded er mwyn rhoi adlewyrchiad cywirach o'r adnoddau cychwynnol sydd eu hangen. Mae adolygiad parhaus yn cael ei gynnal a/neu adnoddau a allai fod ar gael drwy gydweithio.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Adolygu'r defnydd o'r termau Taith Gerdded Sirol a/neu daith gerdded a hyrwyddir, er mwyn sicrhau defnydd cyson ohonynt.	Newid y flaenoriaeth i Ganolig
Chwilio am gyfleoedd i gydweithio a fydd yn cynyddu'r adnoddau posibl ar gyfer y cam hwn.	Diwygio'r costau yn unol â chanlyniad yr adolygiad
Adolygu'r costau gwirioneddol	

Cam 41

Ar y gweill.

Mae'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad wedi gwella tudalennau gwe'r FfMLI drwy bostio manylion y cyfarfodydd nesaf a'r cofnodion yn fwy prydlon.

Mae cofrestr ar-lein o Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Chyflwyniadau a31(6) wedi cael ei chyhoeddi ar-lein.

Mae gwaith i wella gwybodaeth gyffredinol ar-lein a chreu ffurflenni cais i'w cyhoeddi ar-lein ar y gweill, byddai cael swyddog i weithio'n benodol ar wella'r wefan yn golygu bod modd gweithredu'r cam hwn ynghynt.

Mae swydd Swyddog Prosiect sy'n cynnwys rheoli'r wefan wedi cael ei chymeradwyo, penodiad yn yr arfaeth.

Yn ystod gweithdy'r FfMLI nododd aelodau nad oed gwybodaeth am statws gweithredol y rhwydwaith HTCau ar gael ar-lein ar hyn o bryd (eitem d). Ystyriwyd y dylid adolygu'r sefyllfa hon ar ôl cwblhau'r arolwg o 100% o lwybrau.

Ffordd ymarferol o fesur gwelliannau i'r wefan fyddai monitro faint o bobl sy'n defnyddio'r wefan i ymgysylltu â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad, yn hytrach na chyflwyno ceisiadau neu gwynion drwy ddulliau eraill.



TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Penodi Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Monitro defnydd o'r wefan	
Ceisio adborth am y wefan am nodweddion fel pa mor hawdd ydyw i'w defnyddio, yr wybodaeth sydd ar gael ac ati.	

Cam 42

Mae rhywfaint o waith i hyrwyddo mynediad i Geffylau wedi cael ei drafod yng nghyfarfodydd is-grŵp hyrwyddo'r FfMLI.

Mae'r tîm Twristiaeth wedi ymdrechu i ymgysylltu â lleoliadau/elusennau/sefydliadau marchogaeth/ceffylau i bostio deunydd hyrwyddo ar Darganfod Sir Gâr yn rhad ac am ddim.

Mae'r cam yn parhau i gael ei weithredu, a gwaith hyrwyddo'n gysylltiedig â cheffylau yn cael sylw rheolaidd ar agenda'r is-grŵp. Mae'r tîm twristiaeth yn anelu i lunio taflen sy'n dangos llwybrau lle gellir marchogaeth, o fewn y map mynegai ehangach o lwybrau cerdded a gaiff eu hyrwyddo.

Bydd strategaeth marchogaeth yn rhoi cyfeiriad i'r cam hwn ac yn llywio'r broses o'i weithredu hyd weddill tymor y CGHT. Nodwyd bod angen diweddarau geiriad y Cam gweithredu, gan nad yw Marchogion Sir Gâr yn bodoli mwyach.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Parhau i weithio gydag is-grŵp y FfMLI a'r tîm Twristiaeth i hyrwyddo unrhyw gyfleoedd am fynediad i geffylau.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
Rhoi'r flaenoriaeth i gwblhau'r Strategaeth Marchogaeth (gweler cam 17)	Aralleirio'r cam gweithredu i "Darparu gwybodaeth reolaidd ynghylch cyfleoedd gwell o ran marchogaeth, ceffylau a thwristiaeth yn y Sir i gynrychiolwyr lleol Cymdeithas Ceffylau Prydain a grwpiau eraill tebyg i'w chynnwys yn eu deunyddiau hyrwyddo. Annog cylchrediad eang o ddeunyddiau hyrwyddo"

Cam 44

Cam gweithredu a fydd yn parhau hyd ddiwedd tymor y CGHT.

Blaenoriaeth uchel yn rhinwedd cynnwys Strategaeth Marchogaeth. Fel arall, byddai hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ganolog o ran Gwella Hawliau Tramwy ar hyn o bryd.

Nid oes digon o gyllid ar gyfer cwnpas llawn y cam gweithredu.

Gwnaeth aelodau'r FfMLI sylw ynghylch deall rolau is-adrannol CSC o fewn y cam gweithredu hwn; mae angen nodi adran arweiniol yn CSC. Nid yw'r cam hwn wedi'i weithredu'n llawn, yn bennaf oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen ar CSC i drefnu a chynnal digwyddiadau eu hunain. Gydag adnoddau'n brin, nid yw'n realistig trefnu 'digwyddiadau' na 'rhaglenni gweithgareddau'.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Nodi is-adran/gwasanaeth arweiniol ar gyfer y cam gweithredu hwn, hysbysu'r FfMLI.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029
	Aralleirio i "Hyrwyddo manteision cerdded, marchogaeth a beicio o safbwynt cymdeithasol, iechyd a'r economi, er enghraifft drwy weithio gyda chyrff eraill sy'n trefnu digwyddiadau neu weithgareddau cysylltiedig, a thrwy ddarparu gwybodaeth ar-lein am y Strategaeth Beicio a'r Strategaeth Marchogaeth (wedi iddi gael ei chyhoeddi)."

Cam 43

Mae'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad o'r farn y dylai Cynghrair Anabledd CSC fod yn sefydliad partner o fewn y cam hwn.

Mae angen ymgysylltu ychwanegol â'r Gynghrair Anabledd a grwpiau cynrychioliadol eraill i nodi llwybrau priodol. Nid yw'r gwaith yn gysylltiedig â'r cam hwn ond megis dechrau, ac mae'n parhau.

TASG(AU)	NEWID(IADAU) ARFAETHEDIG
Ymgysylltu â grwpiau anabledd i nodi llwybrau sy'n berthnasol i'r cam hwn.	Diwygio'r dyddiad targed i 2029



	Ychwanegu Cynghrai Anabledd Sir Gaerfyrddin fel Sefydliad Partner
--	---



CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

Cynhaliwyd adolygiad canol tymor yn 2022/2023 o Gynllun Cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) Sir Gaerfyrddin 2019-2029. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'r gwaith parhaus i fonitro cyflawniad a chynnydd hanner ffordd drwy dymor y CGHT.

Cynhaliwyd yr adolygiad canol tymor yn unol â Chanllawiau LIC i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy 2016. Mae wedi cynnwys Adolygiad Polisi Sylfaenol ac adolygiad o gynnydd wrth weithredu Camau'r Cynllun Cyflawni hyd yma. Cynhaliwyd adolygiad canol tymor Cynllun Cyflawni'r CGHT ar y cyd â thîm Mynediad i Gefn Gwlad CSC, gyda mewnbwn gan FfMLI Sir Gaerfyrddin.

Ceir cyfanswm o 47 o Gamau Gweithredu ac is-gamau yng Nghynllun Cyflawni CGHT 2019-2029.

I ddiben yr adolygiad canol tymor hwn, mae'r Camau wedi cael eu rhannu'n dri chategori sy'n adlewyrchu'r llwyddiannau a'r diffygion wrth eu gweithredu hyd yma.

COCH: Camau Gweithredu uchel eu blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni na chafwyd digon o gynnydd i'w gweithredu.

AMBR: Camau eraill y Cynllun Cyflawni (nad ydynt wedi'u rhestru yn y categorïau eraill) lle gwelwyd lefelau amrywiol o lwyddiant wrth eu gweithredu.

GWYRDD: Camau Gweithredu'r Cynllun Cyflawni lle bu cynnydd da, a lle bo'r camau wedi'u rhoi ar waith yn foddhaol.

Nodwyd yn yr adolygiad fod geiriad nifer o'r Camau yng Nghynllun Cyflawni CGHT 2019-2029 yn ei gwneud hi'n anodd asesu cynnydd gweithredu'r camau hynny.

Argymhellir y dylid cytuno ar nodau sy'n gysylltiedig â'r Cam Gweithredu sy'n Gyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol. Dylid cynllunio'r rhain fel bod llinell sylfaen glir y gellir eu cymharu a'u mesur yn ei herbyn.

Awgrymir y dylid rhoi mwy o sylw i adolygu a diweddaru'r Camau hynny sydd wedi'u nodi fel rhai sydd â blaenoriaeth uchel i'w cyflawni. Yn ystod y broses hon, ac ystyried yr hinsawdd economaidd heriol, dylid adolygu a diweddaru'r costau hefyd fel bod yr amcangyfrifon yn realistig ac yn gynaliadwy (yn enwedig o safbwynt chwyddiant).

CAMAU GWEITHREDU UCHEL EU BLAENORIAETH YN Y CYNLLUN CYFLAWNI LLE BU CYNNYDD ANNIGONOL O RAN EU GWEITHREDU (COCH)

Yn yr adolygiad hwn, nodwyd amryw o Gamau uchel eu blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni lle na chafwyd digon o gynnydd i'w gweithredu. Lle bu diffygion sylweddol mewn cynnydd o ran gweithredu, dyfarnwyd sgôr Coch (drwy ddefnyddio'r system CAG). Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd diffyg cyllid neu ddiffyg adnoddau priodol. Mae'n bosib hefyd fu'r mesurau a roddwyd ar waith i gyflawni'r Camau Gweithredu yn effeithiol.

Canfu'r adolygiad, ar ôl 5 mlynedd, y cafwyd cynnydd annigonol wrth weithredu 5 o'r 47 o Gamau (oddeutu 11%). Mae'r Camau sy'n perthyn i'r categori hwn yn trafod themâu sy'n gysylltiedig â'r canlynol yn bennaf:

Diffygion mewn cyllid ar gyfer cynlluniau cyfalaf a reffeniw, er mwyn gwneud gwelliannau i gynnyddu cyfran yr HTCau sydd ar agor ac yn "hawdd eu defnyddio" ac amynt arwyddion da.

Ceir diffygion mewn cyllid reffeniw i dalu am yr adnoddau staffio sydd eu hangen.

Mae'r diffyg mewn cyllid cyfalaf a reffeniw wedi golygu na fu gan y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad ddigon o adnoddau i wneud cynnydd sylweddol wrth weithredu'r holl Gamau uchel eu blaenoriaeth yn y CGHT.

Mae meysydd penodol lle mae diffyg a nodwyd wedi effeithio ar y gwaith angenrheidiol, yn cynnwys sefydlu protocolau gorfodi a gwella'r perfformiad wrth brosesu Gorchmynion. Bydd y diffyg hefyd wedi effeithio ar eu gallu i wneud cais am gyllid ychwanegol (lle bo cyllid ar gael) ar gyfer prosiectau gwella.

Hyd weddill tymor y CGHT, bydd angen mwy o ffocws ar Gamau uchel eu blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni, lle bu cynnydd annigonol i'w gweithredu.

CAMAU ERAILL YN Y CYNLLUN CYFLANWI LLE GWELWYD CYNNYDD AMRYWIOL I'W GWEITHREDU (AMBR)

Mae'r Camau nad ydynt yn perthyn i'r ddau gategori arall, COCH a GWYRDD, wedi'u graddio'n Ambr (drwy ddefnyddio'r system CAG). Mae'r rhain yn cynnwys Camau uchel a chanolig eu blaenoriaeth sydd wedi'u gweithredu'n rhannol, yn ogystal â Chamau isel a chanolig eu blaenoriaeth lle na welwyd rhyw lawer o gynnydd i'w gweithredu, os o gwbl. Mewn sawl achos, mae hyn yn deillio o ddiffyg cyllid neu adnoddau priodol nad ydynt ar gael. Hefyd, efallai na fydd y mesurau a roddwyd ar waith i gyflawni'r Camau wedi bod yn gwbl effeithiol bob amser.

Mae'r adolygiad wedi canfod, hanner ffordd drwy dymor y cynllun, y gwelwyd lefelau amrywiol o gynnydd wrth weithredu 23 o'r 47 o Gamau (tua 49%).

Mae Camau uchel eu blaenoriaeth sy'n perthyn i'r categori hwn yn cynnwys:

Camau Uchelgeisiol lle nad yw'r geiriad yn realistig nac yn gyflawnadwy, neu linell sylfaen glir nad yw wedi'i diffinio. Er enghraifft: "Sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei gynnal hyd y safon uchaf bosibl..." neu "wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael..."

Rhai yr effeithir arnynt gan yr angen i flaenoriaethu adnoddau staff mewn meysydd eraill, fel cyfleoedd i sicrhau cyllid cynnal a chadw ychwanegol neu gyllid a.106 gan ddatblygwyr.

Y rhai sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r polisi marchogaeth (neu sy'n ddibynol ar hynny), sydd wedi'i ohirio ar hyn o bryd tan 2024.

Hyrwyddo cyfleoedd a gwelliannau mynediad i bobl â symudedd cyfyngedig neu amhariadau eraill.

Dylid nodi y bydd y buddsoddiad diweddar mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo gwirfoddoli yn creu gwerth ychwanegol hyd weddill y tymor, gan y bydd hynny'n cefnogi gweithredu Camau'n llwyddiannus o fewn y ddwy thema gyntaf, gan ryddhau adnoddau ar gyfer gwaith arall o bosib.

Bydd y swydd a ailwrpaswyd yn ddiweddar yn creu capasiti i sicrhau cyfleoedd ariannu a chyflawni prosiectau gwella sy'n targedu meysydd fel llwybrau i bob gallu a phob defnyddiwr. Gallai llenwi'r swydd hon cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl hefyd ryddhau adnoddau ar gyfer gwaith arall.

Bydd angen mwy o ffocws hyd weddill tymor y CGHT, lle bu cynnydd annigonol i weithredu Camau uchel eu blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni. Sylwer y dylid rhoi mwy o ffocws ar y Camau uchel eu blaenoriaeth (Ambr) y ogystal â'r Camau uchel eu blaenoriaeth (Coch).

CAMAU'R CYNLLUN CYFLAWNI A WEITHREDWYD YN FODDHAOL (GWYRDD)

Ceir nifer o Gamau'r Cynllun Cyflawni lle bu cynnydd da, ac yr aseswyd eu bod, hyd yma, wedi'u gweithredu'n foddhaol. Mae'r rhain wedi cael eu graddio (gan ddefnyddio'r system CAG) yn Wyrdd. Mae hyn yn dangos bod y Camau naill ai wedi'u gweithredu'n llwyddiannus, neu lle na lwyddwyd ond i'w gweithredu'n rhannol, eu bod yn isel eu blaenoriaeth.

Mae'r adolygiad wedi canfod, hyd ddiwedd 2023 (5 mlynedd), fod 19 o'r 47 o Gamau (tua 40%) yn cael eu gweithredu'n foddhaol, gan gynnwys:

Gwelliannau mewn perfformiad o ran llwybrau "hawdd eu defnyddio" a gosod arwyddion.

Mabwysiadu a chyfleu egwyddorion Mynediad Lleiaf Rhwystrol

Cynnal archwiliadau ac adolygiadau o ddata sy'n gysylltiedig â mynediad a hawliau tramwy.

Cydlafurio a gweithio gyda sefydliadau eraill.

Hyrwyddo mynediad a theithiau cerdded sirol.

A ninnau hanner ffordd drwy dymor y CGHT, mae'n arwydd cadarnhaol fod 40% o'r camau sy'n ffurfio'r Cynllun Cyflawni yn cael eu gweithredu'n foddhaol, bod bron hanner (49%) wedi'u cyflawni'n rhannol, ac mai ond yn 11% ohonynt y gwelwyd gweithredu annigonol.

Er mai bach ydynt o ran nifer, ni ellir anwybyddu'r 5 cam nad ydynt wedi'u gweithredu. Drwy amlinellu camau cadarnhaol y gellir eu cymryd i lywio'r Awdurdod tuag at weithredu'n llwyddiannus, byddwn yn disgwyl gweld newid cadarnhaol yn y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni'r camau gweithredu hynny drwy weddill tymor y CGHT.

ADOLYGIAD PELLACH

Gan fod yr adolygiad Canol Tymor hwn yn digwydd hanner ffordd drwy dymor CGHT Sir Gaerfyrddin 2019-2029, byddwn nawr yn adolygu'r CGHT cyfredol eto ar ddiwedd ei dymor. Mae'n debygol bryd hynny y bydd gofyn i'r Awdurdod gynnal adolygiad llawn o'r CGHT cyfan a'r Cynllun Cyflawni ynddo.

Bydd y CGHT, ei lwyddiannau a'i ddiffygion, yn wybodaeth allweddol wrth ddatblygu'r cynllun nesaf.

CYFEIRIADAU

Cyngor Sir Gaerfyrddin. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-2029. 2019.

Llywodraeth Cymru. Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. 2016.

—. Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. 2021.

—. Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. 2021.

Yr Adran Drafnidiaeth. The Highway [Code](https://www.gov.uk/guidance/the-highway-code). [GOV.UK](https://www.gov.uk/guidance/the-highway-code). [Ar-lein]
<https://www.gov.uk/guidance/the-highway-code>.

Cyngor Sir Gaerfyrddin. Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin – Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018 – 2023. 2021.

—. Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027. [Ar-lein]
<https://www.carmarthenshire.llyw.cymru/cartref/cyngor-democratiaeth/strategaethau-a-cynlluniau/datganiad-gweledigaeth-cabinet-2022-2027/>.

—. Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen. 2019.

Llywodraeth Cymru. Rhaglen Diwygio Mynediad, Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. 2021.

Llywodraeth Cymru. Mynediad i Ddyfrffyrdd Mewndirol, Bwriad Polisi Amlinellol Llywodraeth Cymru, Fforwm Mynediad Cenedlaethol. 2019.

ATODIAD A

CANFYDDIADAU'R ADOLYGIAD POLISI SYLFAENOL

Daeth yr Adolygiad Polisi Sylfaenol i'r casgliad bod y newidiadau o ran "Polisi" (gan gynnwys Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau) a restrir yn y tabl isod, y tueddu i gefnogi a chyd-fynd â Nodau, Polisiâu a'r Cynllun Gweithredu a ddisgrifir yn Adran 11 o CGHT Sir Gaerfyrddin 2019-2029.

Polisi, deddfwriaeth a chanllawiau y nodwyd y gallent effeithio ar Gynllun Cyflawni'r CGHT.

Legislation / Statute
The Flood and Water Management Act 2010 (Schedule 3)
The Restricted Roads (20mph speed limit) (Wales) Order 2022 SI 880 (W 177)
The Countryside and Rights of Way Act 2000 (Meaning of Public Body) (Wales) Regulations 2021 SI 1355 (W 353)
National Policy
Unsettled Newydd: The Wales Transport Strategy 2021 (3)
Active Travel Act Guidance, July 2021 (4)
The Highway Code 2022 (5)
Regional Policy
None-Relevant
Local Policy
Carmarthenshire County Council Corporate Strategy 2018-2023 (Updated 2021) (6)
Cabinet Vision Statement 2022-2027 (7)
Moving Rural Carmarthenshire Forward (8)
Emerging Policy
Carmarthenshire County Council Draft Equestrian Strategy (not published)
Access Reform Programme, Access Reform Advisory Group Final Advice Report (9)
National Access Forum, Welsh Government Outline Policy Intent Paper (10)

Mae'r dogfennau Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Canllawiau Deddf Teithio Llesol 2021, y Strategaeth Gorfforaethol, y Weledigaeth ar gyfer y Dyfodol a Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen oll yn trafod y thema gyffredin o anelu i hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy, defnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol a Llwybrau Teithio Llesol.

Maent hefyd yn hyrwyddo cydweithio rhwng CCC, grwpiau buddiant arbennig, rhanddeiliaid, tîrfeddianwyr ac aelodau'r cyhoedd, wrth ddatblygu a chyflwyno llwybrau newydd.

Ar lefel ddeddfwriaethol, mae newidiadau fel Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) wedi gosod gofynion statudol ar bob datblygiad dros 100m² (tybir y bydd hyn yn cynnwys y mwyafrif o ddatblygiadau llwybr/cyfleuster newydd) i ddarparu systemau draenio cynaliadwy yn unol â safonau cenedlaethol a cheisio cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) cyn dechrau adeiladu. Er nad yw hyn yn dirymu unrhyw nodau, polisïau a chynlluniau gweithredu, mae'n creu lefel uwch o gymhlethdod ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd, gyda chostau uwch yn debygol yn gysylltiedig â chynllunio, dylunio ac adeiladu, yn ogystal â rhwymedigaethau cynnal parhaus sy'n fwy beichus i'r awdurdod lleol.

Yn yr un modd, mae newidiadau i Ganllawiau Deddf Teithio Llesol a gyhoeddwyd yn 2021 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth Mapio Llwybrau Teithio Llesol sy'n atgyfnerthu nodau, polisïau a chynllun gweithredu'r CGHT.

Ar ben hynny, gallai argymhellion Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cyngori Diwygio Mynediad (ARAG FAR), os cânt eu gweithredu, greu ystod o gyfleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu Polisïau a Chantau Gweithredu'r CGHT, gan gynnwys:

- Y potensial am fwy o fynediad ar gyfer gweithgareddau hamdden ychwanegol ar dir mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i bob defnyddiwr, ac i ymestyn tir mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gynnwys yr arfordir.
- Y potensial i gymhwyso hawliau uwch (er enghraifft, er budd beicwyr a marchogion) i Llwybrau Cyhoeddus.
- Llunio mapiau (digidol) diffiniol a chanllawiau eraill statudol ac anstatudol, er mwyn annog hamddena cyfrifol, cyfathrebu'n well a gorfodaeth well yng nghyswllt hawliau mynediad.
- Diwygio Cynlluniau Integredig a fyddai'n cefnogi integreiddio cyfrifoldebau cysylltiedig eraill fel asesiadau a dyletswyddau seilwaith gwyrdd o dan Ddeddf Teithio Llesol 2014.
- Hefyd, cyfleoedd eraill fel diwygio cynlluniau lleol, gwella cysylltiadau â dyletswyddau'r awdurdod cynllunio ac integreiddio â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a mesurau lliniaru drwy a106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu'r potensial i ddarparu cyllid amaethyddol-amgylcheddol ar gyfer gwelliannau mynediad a seilwaith cefnogol.